



Eisteddfod yr Urdd

Caerdydd a'r Fro

27/05–01/06/2019

Rhestr Testunau



urdd.cymru/eisteddfod

 Eisteddfod yr Urdd

 eisteddfodurdd

Rhestr Testunau

**Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Caerdydd a'r Fro**

Mai 27–Mehefin 1, 2019

Aled Siôn

Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
Ffôn: 01678 541014
Ebost: aledsion@urdd.org

Morys Gruffydd

Trefnydd yr Eisteddfod
Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
Ffôn: 01678 541012
Ebost: morys@urdd.org

Mae'r Urdd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth a chydweithrediad
y partneriaid canlynol er mwyn cynnal cystadlaethau amrywiol:
Colegau Cymru, Menter a Busnes, Prifysgol Abertawe, Cymdeithas
Cyfieithwyr Cymru, Prifysgol Caerdydd, IntoFfilm a Mudiad Meithrin.



Cynnwys

Gair o Groeso

Y Cywydd Croeso	5
Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru	6
Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	7
Rheolau Cyffredinol y Dysgwyr	9
Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd	10
Sut i Gystadlu	11
Cyflwyno Gwaith	12
Dyddiadau i'w Cofio	13
Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru ..	14
Cyfeiriadau Cyhoeddwy	15

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

Cerddoriaeth Lleisiol	17
Canu Gwerin	22
Cerddoriaeth Offerynnol	22
Band/Artist Unigol	27
Cerdd Dant	27
CogUrdd	30
Dawnsio Gwerin	31
Dawns	33
Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo	34
Llefaru	35
Siarad Cyhoeddus	36
Theatr	37
Trin Gwallt a Harddwch	40

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

Adeiladwaith	43
Adolygu Ffilm	43
Gwaith Lluniadu 2D	44
Gwaith Creadigol 2D	44
Dyluniad 2D	45
Graffeg Cyfrifiadurol	46
Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol	46
Ffotograffiaeth	46
Print Monocrom	46
Print Lliw	47
Cyfres o Brintiau Monocrom	47
Cyfres o Brintiau Lliw	47
Argraffu	47
Argraffu/Addurno ar Ffabrig	48
Gwaith Creadigol 2D Tecstilau	48
Gwaith Creadigol 3D Tecstilau	49
Gwehyddu	49
Penwisg Creadigol a Ffasiwn	49

Clic!
Gallwch glacio ar unrhyw
un o'r adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Pypedau	50
Pypedau (Grŵp)	50
Gwaith Creadigol 3D	50
Creu Artefact	51
Cerameg/Crochenwaith 3D	52
Gemwaith	53
CAD	53
CAM	53
Dylunio a Thechnoleg	54
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg	54
Ysgoloriaeth Gelf, Dylunio a Thechnoleg	55
Cyfansoddi Cerddoriaeth	56
Cyfansoddi Cerdd Dant	57
Cyfieithu	57
Creu Ap	58
Creu Gwefan	58
Creu Ffilm	59
Cynnwys Digidol	59
Gofal Plant	60
Prosiect Gwyddonol	60
Llenyddiaeth: Barddoniaeth	61
Llenyddiaeth: Rhyddiaith	62
Dysgwyr: Medal Bobi Jones	64
Dysgwyr: Tlws y Dysgwyr	65
Dysgwyr: Gwaith Llafar Wedi'i Recordio	65
Cyst. Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd	66
Ysgoloriaeth Geraint George	66
Meithrin Talent – Talent Meithrin	67
Newyddiaduraeth	67
Cyfansoddi: Drama	68

Arall

Rhestr Tlwsau a Gwobrau	69
Cyfeiriadau Swyddogion Datblygu	72
Eithriadau Eisteddfodau Cylch, Sir a Rhanbarth	73



Gair o Groeso

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dychwelyd i'r brifddinas! Tybed os mai 2019 fydd eich blwyddyn fawr chi fel cystadleuydd? Does ond un ffordd o ddod i wybod, sef drwy gystadlu! Yn hynny o beth, mae'r cam cyntaf yn y gyfrol hon, sy'n cynnwys testunau ar gyfer pob cystadleuaeth. Yn sicr, mae rhywbeth at ddant pawb yng nghystadlaethau'r ŵyl arbennig hon a chyfleoedd euraidd i ddatblygu a meithrin doniau creadigol, perfformio a chyfansoddi ein plant a'n pobl ifanc. Hoffwn annog pob un o aelodau'r Urdd i ymarfer eu doniau, ym mha bynnag feysydd y bônt gan ddymuno'r gorau iddynt wrth fynd ati i greu a pharatoi. Yn anad dim, mawr obeithiaf y bydd ein hieuenctid yn mwynhau'r broses - boed hynny yn gymdeithasol wrth gyd-ymarfer â chyfoedion mewn cystadlaethau torfol neu wrth iddynt weithio'n unigol a chael boddhad wrth weld ffrwyth eu llafur yn datblygu.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r hyfforddwyr a'r rhai hynny a fydd yn chwarae rhan mor flaenllaw yn annog ein plant a'n pobl ifanc i gystadlu drwy gyflwyno'r testunau ar lawr y dosbarth, yn y cartref ac yn gymdeithasol mewn clybiau ac Aelwydydd. Wrth gynnig y cyfleoedd hyn, rydych yn cynnig llawer mwy na chyfle i gystadlu - y mae'n gyfle i ddatblygu hyder ac yn fodd o greu atgofion gwerthfawr.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n gynnes i Gaerdydd a hynny yn Eisteddfod yr Urdd 2019.

Gwenno Mair Davies

Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Y Cywydd Croeso

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019

Estynnwn groeso dinas,
a chroeso'r Fro heddiw'n fras,
i bob un trwy byrth y Bae
a'n mileniwm o lannau.
Cewch ar awel ymwelydd
angori dawn yng Nghaerdydd.

Mynnwn ŵyl i gael mwynhau
Llawenydd diwylliannau;
Eisteddfod pob tafodiaith
A'r Maes yn gyfandir maith,
Bydd sgrech o ddinas fechan
Yn llafar gan bedwar ban.

Hynny gewch ar faes ein gŵyl;
Ond hefyd cewch ein tafwyl,
A hufen iâ'n hafau ni
O'r Bae euraidd a'r Barri,
A chlwb sy'n chwil ei obaith, -
Clwb Ifor - angor yr iaith!

Rhown lais Jarman i'r tannau,
Rhannwn ddawn Butetown a'r Bae.
Cewch wledd ein senedd o sŵn,
Twrw reggae lle trigwn,
A choch pob stadiwm, a chân
Fwynaf y Taf ei hunan.

Gorau'r Fro o'r holl fröydd
A gorau doniau Caerdydd.
Dewch a'ch hangerdd a'ch cerddi,
Eich doniau a'ch hwyliau chi,
A thrwy byrth o aur i'r Bae,
Fan hyn i'n llwyfan ninnau.

Osian Rhys Jones

Lluniwyd y Cywydd Croeso eleni wedi cyfres o weithdai dan arweiniad Y
Prifardd Osian Rhys Jones gyda disgyblion TGAU a Lefel A Ysgol Uwchradd
Plas Mawr, Ysgol Uwchradd Glan Taf, Ysgol Uwchradd Bro Edern ac Ysgol
Uwchradd Bro Morgannwg. Diolch yn fawr i Osian ac i'r holl ddisgyblion am
eu cyfraniad.

Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

1929	Corwen
1930	Caernarfon
1931	Abertawe
1932	Machynlleth
1933	Caerffili
1934	Hen Golwyn
1935	Caerfyrddin
1936	Blaenau Ffestiniog
1937	Gwaun-cae-gurwen
1938	Aberystwyth
1939	Llanelli
1940	Y Rhyl
1941-5	Bwlch yn ystod y Rhyfel
1946	Corwen
1947	Treorci
1948	Llangefni
1949	Pontarddulais
1950	Wrecsam
1951	Abergwaun
1952	Machynlleth
1953	Maesteg
1954	Y Bala
1955	Abertridwr
1956	Caernarfon
1957	Rhydaman
1958	Yr Wyddgrug
1959	Llanbedr Pont Steffan
1960	Dolgellau
1961	Aberdâr
1962	Rhuthun

1963	Brynaman
1964	Porthmadog
1965	Caerdydd
1966	Caergybi
1967	Caerfyrddin
1968	Llanrwst
1969	Aberystwyth
1970	Llanidloes
1971	Abertawe
1972	Y Bala
1973	Pontypridd
1974	Y Rhyl
1975	Llanelli
1976	Porthaethwy
1977	Y Barri
1978	Llanelwedd
1979	Maesteg
1980	Abergele
1981	Castell Newydd Emlyn
1982	Pwllheli
1983	Aberafan
1984	Yr Wyddgrug
1985	Caerdydd
1986	Dyffryn Ogwen
1987	Merthyr Tudful
1988	Maldwyn
1989	Cwm Gwendraeth
1990	Dyffryn Nantlle ac Arfon
1991	Taf Elai
1992	Bro Glyndŵr

1993	Abertawe a Lliw
1994	Meirionnydd
1995	Bro'r Preseli
1996	Bro Maelor
1997	Islwyn
1998	Llŷn ac Eifionydd
1999	Llanbedr Pont Steffan a'r Fro
2000	Bro Conwy
2001	Gŵyl yr Urdd
2002	Caerdydd a'r Fro
2003	Tawe, Nedd ac Afan
2004	Ynys Môn
2005	Canolfan y Mileniwm
2006	Sir Ddinbych
2007	Sir Gâr
2008	Sir Conwy
2009	Bae Caerdydd
2010	Ceredigion
2011	Abertawe a'r Fro
2012	Eryri
2013	Sir Benfro
2014	Meirionnydd
2015	Caerffili a'r Cylch
2016	Sir y Fflint
2017	Penybont-ar-Ogwr, Taf ac Elai
2018	Brycheiniog a Maesyfed
2019	Caerdydd a'r Fro
2020	Sir Ddinbych
2021	Sir Gaerfyrddin

Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Mae'r rheolau isod yn berthnasol i bob Eisteddfod gan gynnwys Eisteddfodau Cylch, Sir/Rhanbarth a'r Genedlaethol.

1 Polisi Iaith

Diben yr Eisteddfod yw hyrwyddo'r diwylliant Cymreig a diogelu'r iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod. Rhaid i'r cyfansoddiaidau a'r cystadlu fod trwy gyfrwng y Gymraeg ac eithrio lle nodir yn wahanol dan unrhyw gystadleuaeth neilltuol.

- i) Mae'r cystadlaethau'n agored i unrhyw aelod o'r Urdd a anwyd yng Nghymru, neu y ganwyd un o'i rhieni yng Nghymru, neu unrhyw berson sy'n byw yng Nghymru yn union cyn yr ŵyl, neu unrhyw berson sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg, o Gymru a thu hwnt. Mae rhai cystadlaethau yn gofyn am hyfedredd yn yr iaith Gymraeg, ac eraill lle nad oes galw am sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Rhaid i unrhyw eiriau a osodir fod yn yr iaith Gymraeg.
- ii) Llefary/Cân Actol/Cyflwyniad Dramatig/Theatr Eithriad gogyfer â phwyslais penodol fydd y defnydd o iaith arall. Ni chaniateir gordddefnydd o iaith arall.
- iii) Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo/Creadigol Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg.

2 Aelodau

Dim ond aelodau llawn o Urdd Gobaith Cymru a ganiateir i gystadlu mewn Eisteddfod Gylch, Eisteddfod Sir/Rhanbarth ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ni ystyrir neb yn aelod llawn oni bai iddo/iddi dalu tâl cofrestru a derbyn cerdyn a rhif aelodaeth ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Rhaid cofrestru mewn da bryd. Nid oes modd cofrestru i gystadlu heb fod yn aelod o'r Urdd. Gellir ymaelodi trwy ein gwefan: urdd.cymru/aelodaeth.

3 Cofrestru i Gystadlu

Mae hawl gan bob aelod o'r Urdd gofrestru i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno cystadlu gofrestru ar ein gwefan cyn dyddiad cau eu Sir/Rhanbarth. Gellir gweld y dyddiadau cau ar ein gwefan. Anogir pawb i ymaelodi aelodau yn gynnar yn nhymor yr Hydref a chofrestru cystadleuwyr ar gyfer yr Eisteddfod Gylch mewn da bryd. Mae gan bob Sir/Rhanbarth ddyddiad cau pendant ac yna cyfnod o wirio'r wybodaeth. Ar ôl i'r cyfnod gwirio ddod i ben bydd y system yn cau ac ni fydd modd ychwanegu cystadleuwyr nac addasu gwybodaeth oni bai y telir ffi weinyddol. Mae modd i rieni wirio cystadlaethau eu plant ar-lein gan dynnu sylw'r gangen/ysgol/Urdd o unrhyw broblem.

4 Cyfyngiadau Cystadlu

Nid oes unrhyw gyfyngu ar yr hawl i gystadlu. Mae'r Urdd yn caniatáu i ysgolion barhau i gynnal Eisteddfod ysgol ac i anfon cynrychiolwyr i'r Eisteddfod Gylch, ond mae hawl gan bob aelod o'r Urdd gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, os mai dyma ddymuniaid yr aelod neu'r rhiant.

5 Dysgu'r Cystadlaethau

Rhaid i gystadleuwyr ddysgu'r gwaith o dan sylw yn y gystadleuaeth yn gyfan/fel y nodir wrth ochr y gystadleuaeth, a bod yn barod i berfformio'r gwaith yn gyfan, neu'r hyn a ofynnir gan y beirniad mewn rhagbrawf neu ar y llwyfan. Ni chaniateir i neb ddefnyddio copïau o eiriau a/neu gerddoriaeth mewn unrhyw fodd, ac eithrio yn yr adran offerynnol. Rhaid perfformio'r argraffiad a'r cyweirnod a geir yn y darn swyddogol a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol na newid cyweirnod, ac eithrio lle nodwyd hynny yn y Rhestr Testunau.

6 Eisteddfod Sir/Rhanbarth

Rhaid i bob cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Sir/Rhanbarth ym mhob achos, oni nodir yn wahanol. Ni chaniateir i unigolyn, parti na chôr gystadlu yn rhagbrofion Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, oni bai iddynt gael eu hanfon yno yn swyddogol o un o Eisteddfodau Sir/Rhanbarth yr Urdd.

7 Defnyddio'r Un Cystadleuwyr / Darn o Waith

Rhaid i bawb sy'n cystadlu berfformio/defnyddio'r un darn/au o waith ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a rhaid cadw at yr un cystadleuwyr trwy gydol y daith i'r Genedlaethol. Nid oes hawl newid cystadleuwyr rhwng y Cylch, y Sir/Rhanbarth a'r Genedlaethol. Anogir pawb mewn cystadlaethau torfol (sef 5 cystadleuydd a throsodd) i restru eilyddion er mwyn osgoi unrhyw anawsterau a all godi.

8 Y Buddugol

Buddugol cyntaf pob cystadleuaeth sydd â'r hawl cyntaf i gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Os metha ef/hi, gall Adran yr Eisteddfod (a'r Adran yn unig) wahodd yr ail fuddugol yn yr Eisteddfod Sir/Rhanbarth gymryd ei l/le. Yn achlysurol, gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn ogystal â'r cyntaf i ddod i gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hysbysir y cystadleuwyr perthnasol yn fuan wedi cynnal Eisteddfod Sir/Rhanbarth olaf. Yn y Rhanbarth lle cynhelir yr Eisteddfod, bydd y cyntaf ac ail o bob cystadleuaeth yn cael eu gwahodd i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

9 Cyd-fuddugol

Ni dderbynnir cydradd fuddugol yn unrhyw safle, yn unrhyw gystadleuaeth yn yr Eisteddfodau Cylch, Sir/Rhanbarth na'r Genedlaethol. Os anfonir enwau cystadleuwyr cydradd fuddugol at Adran yr Eisteddfod, ni dderbynnir yr un ohonynt. Yn yr un modd, nid oes modd rhannu gwobrau yn y cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu.

10 Oedran Cystadlu

Rhaid i gystadleuwyr fod o fewn yr oedran cystadlu ar Awst 31 wedi'r Eisteddfod. Pan sonnir er enghraifft, am gystadleuaeth '14-25 oed' rhaid i ymgeiswyr fod wedi cael eu pen-blwydd yn 14 oed, ond heb gael eu pen-blwydd yn 25 oed. Apelir am gydweithrediad ar ran y cystadleuwyr, arweinyddion canghennau, a swyddogion pwyllgorau Cylch a Sir/Rhanbarth. Gofynnir am ddyddiad geni pob cystadleuydd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Os cyfyd amheuaeth ynglŷn ag oedran unrhyw gystadleuydd, bydd gan Drefnwyr yr Eisteddfod hawl i ofyn am weld tystysgrif geni'r ymgeisydd dan sylw.

11 Dyfarniad y Beirniad

Bydd dyfarniad y beirniad yn derfynol ym mhob achos oddi fewn i reolau a chanllawiau'r ŵyl. Dylid cyflwyno unrhyw apêl/protest i sylw Trefnydd yr Eisteddfod neu i Swyddogion yr Urdd yn achos Eisteddfod Cylch a Sir/Rhanbarth, yn ysgrifenedig o fewn awr ar ôl dyfarniad unrhyw gystadleuaeth, ond gellir trafod y mater ar lafar yn ogystal. O dan amodau eithriadol, sefydlir Panel Apêl. Rhaid cael rhesymau cadarn er mwyn ymgynnull Panel Apêl ac nid yw anghytuno â barn y beirniad yn sail ddigonol. Gweler hefyd rheol 16 (ix). Prif feirniad pob cystadleuaeth yw'r un a enwir yn gyntaf yn y Rhaglen.

12 Rheol Amser Penodol

Mewn cystadlaethau lle nodir terfynau amser penodol, rhaid cadw oddi fewn i'r amser a osodwyd. Nid yw'n dderbyniol cynllunio'n fwriadol i berfformio darn dros yr amser penodedig. Ni fydd yr

Eisteddfod yn diarddel cystadleuwyr sydd wedi mynd dros amser yn yr Eisteddfodau Cylch Sir/Rhanbarth. Fe'u cosbir os ydynt dros amser o 15 eiliad, ond fe all y beirniad ystyried y ffaith bod cystadleuydd dros yr amser penodedig hyd yn oed os ydynt llai na 15 eiliad drosodd. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, rhaid cadw at y dasg a ofynnir gan gadw oddi fewn i'r amser penodedig ac fe'u cosbir os ydynt dros yr amser penodedig.

13 Beirniadaeth

Bydd beirniadaeth fer ysgrifenedig ar gael i bob cystadleuydd ar ôl i'r gystadleuaeth ymddangos ar y llwyfan. Ni ellir addo beirniadaeth ysgrifenedig i gystadleuwyr ar waith cyfansoddi. Cyhoeddir rhestr o'r buddugwyr ar ein gwefan ac ap, cyfrol o gyfansoddiadau llenyddol buddugol ac arddangosfa o fuddugwyr yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg. Darperir y feirniadaeth yn y Gymraeg yn unig ond gellir o dan amodau eithriadol, ddarparu'r feirniadaeth yn y Saesneg ond ni fydd y feirniadaeth ar gael ar ddiwedd yr Eisteddfod.

14 Gweinyddu Eisteddfod

Cyfrifoldeb Pwyllgor Sir/Rhanbarth yw gweinyddiad ei Eisteddfod Sir/Rhanbarth. Yn yr un modd, dirprwyir y cyfrifoldeb o weinyddu'r Eisteddfodau Cylch i'r Pwyllgorau Cylch. Mae rheolau cystadlu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn berthnasol i holl Eisteddfodau Cylch a Sir/Rhanbarth yr Urdd. Mewn anghydfod, rhaid i'r swyddogion Cylch a Sir/Rhanbarth ymgynghori ag Adran yr Eisteddfod, cyn gwneud penderfyniad.

15 Eisteddfod y Tu Allan i Gymru

Cynhelir Eisteddfod Sir/Rhanbarth ar gyfer cystadleuwyr 'tu allan i Gymru ar Mawrth 9, 2019. Rhaid i bob cystadleuydd 'tu allan i Gymru gofrestru ar lein erbyn Chwefror 15, 2019.

16 Cystadlu

- i) Caniateir i unrhyw aelod o'r Urdd gystadlu yn y Sir/Rhanbarth lle mae ei g/chartref neu lle mae'n derbyn ei a/haddysg llawn amser, neu mewn cangen lle mae'n cael ei hyfforddi ar gyfer y gystadleuaeth dorfol o dan sylw. Ni all aelod nad yw mewn addysg llawn amser ac sydd wedi gadael ei 'g/chartref', gysylltu ei hun gyda'r ardal honno fel unigolyn oni bai ei f/bod wedi ymgartrefu o'r newydd yn yr ardal o dan sylw.
- ii) Rhaid i bob aelod gystadlu mewn cystadlaethau unigol yn yr un gangen, naill ai lle mae ei g/chartref neu lle mae'n derbyn ei a/haddysg llawn amser yn unig. Ni fydd modd cystadlu mewn mwy nag un Cylch/Sir/Rhanbarth ar gystadlaethau unigol.
- iii) Rhaid i bob aelod gystadlu mewn deuawd, triawd neu bedwarawd naill ai lle mae ei g/chartref neu lle mae'n derbyn ei a/haddysg llawn amser yn unig.
- iv) Mae modd cystadlu fel unigolion yn enw un gangen ac mewn deuawd, triawd, pedwarawd yn enw cangen arall, ond rhaid bod y naill neu'r llall lle mae ei g/chartref neu lle mae'n derbyn ei a/haddysg llawn amser.
- v) Fe all ddigwydd bod cystadleuydd yn perthyn i fwy nag un gangen – Adran Ysgol ac Aelwyd er enghraifft. Caniateir i'r aelod hwnnw/honno gystadlu dros y naill gangen neu'r llall ar wahanol gystadlaethau. Fodd bynnag, rhaid dewis cystadlu fel unigolyn yn y naill gangen neu'r llall, ond mewn cystadlaethau torfol gall gysylltu ei hun ym mhob achos â'r gangen a'i hyfforddodd yn y gwaith.
- vi) Ni ddylai unrhyw aelod gysylltu ei hun gyda changen sydd gryn bellter o'i gartref heb reswm digonol a synhwyrol.

vii) Ni chaniateir i unrhyw un ymgeisio dros fwy nag un gangen yn yr un gystadleuaeth, na pherthyn i fwy nag un ddeuawd, parti, côr, ac ati yn yr un gystadleuaeth. Ni chaniateir i'r un person chwarae mwy nag un offeryn yn yr un gystadleuaeth offerynnol.

viii) Unwaith yn unig y gellir cystadlu ym mhob cystadleuaeth Celf a Chrefft ond caniateir i aelodau gystadlu mwy nag unwaith mewn cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu.

ix) Bydd penderfyniad Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau a Chadeirydd yr Urdd yn derfynol ar faterion cystadleuol holl eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru. O dan amodau eithriadol, bydd gan Gadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod yr hawl i sefydlu Panel Apêl gan wahodd unigolion ac arbenigwyr i gyfrannu at y broses, yn ôl y galw.

17 Aelod Unigol

Ni chaniateir i neb gystadlu fel 'aelod unigol' os oes cangen o'r Urdd sydd yn agored iddo yn ei ysgol neu o fewn 10 milltir i'w g/chartref. Rhaid iddo/iddi gystadlu yn enw'r gangen honno ym mhob achos oni bai fod y gangen agosaf sydd oddi fewn i 10 milltir i'w g/chartref mewn Sir/Rhanbarth arall. Mewn achos o'r fath, caniateir i'r aelod gystadlu fel 'aelod unigol' yn ei ranbarth 'gartref'.

18 Ymateb Cyn Cystadlu

Oni bai fod yr ymgeisydd yn ymateb yn ddi-oed pan elwir amdano/ amdani mewn rhagbrawf neu oddi ar llwyfan yr Eisteddfod, yna bydd yn colli'r hawl i gystadlu.

19 Cyfeilyddion Swyddogol

Rhaid i unawdwyr a deuawdwyr lleisiol dderbyn gwasanaeth Cyfeilyddion Swyddogol yr Eisteddfod yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan. Nid yw hyn yn cynnwys Unawdwyr Offerynnol, Unawd 19-25 oed, Unawd Allan o Sioe Gerdd na'r Deuawd/Ensemble.Sioe Gerdd

20 Drymiau

Bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer rhagbrofion a llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn unig. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Ond ni fydd y ddarpariaeth yma ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth. Rhaid defnyddio drymiau eich hunain yno.

21 Llwyfannu Cystadleuwyr

Os ceir teilyngdod, ceisir llwyfannu tri ymgeisydd ym mhob cystadleuaeth, ond gall y nifer amrywio yn ôl safon, ystyriaethau amser, ac ati.

22 Beirniad

Mae'n ddealliedig nad yw'r beirniad i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn yr adran o waith yr Eisteddfod y maent yn beirniadu ynddi rhwng Medi 1 a'r Eisteddfod. Ni ddylai Pwyllgorau Cylch a Sir/Rhanbarth wahodd beirniad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i feirniadu yn eu Heisteddfodau hwy, yn yr un adran y byddant yn beirniadu ynddi yn y Genedlaethol. Eithriad i'r rheol yw pan fo argyfwng yn codi, a beirniad yn tynnu yn ôl. Cedwir yr hawl gan y Cyfarwyddwr i dynnu beirniad i mewn ar y funud olaf er mwyn gallu cyflawni'r dasg yn yr Eisteddfodau, Cylch, Sir/Rhanbarth a'r Genedlaethol.

23 Gohirio Eisteddfod

Bydd gan yr Urdd hawl i gwtogi, gohirio neu ddiddymu unrhyw Eisteddfod Gylch, Sir/Rhanbarth neu Genedlaethol os bernir hynny'n angenrheidiol oherwydd amgylchiadau arbennig. Gwna'r Urdd bob ymdrech i sicrhau y bydd holl drefniadau'r wyl yn effeithiol ond ni ellir dal yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddamwain a all ddigwydd yn ystod unrhyw Eisteddfod yn enw'r Urdd.

24 Hawlfraint

Mae'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi. Am ragor o wybodaeth parthed hawlfraint a chlirio darnau hunan-ddewisiad ewch i wefan urdd.cymru/eisteddfod a dewis Rheolau Cystadlu ble bydd dolen yn eich arwain at Gymorth Hawlfraint.

Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad o fewn y perfformiad (hynny yw, pob gwaith hawlfraint a ddefnyddir o fewn perfformiad nad ydyw wedi ei gynnwys yn y Rhestr Testunau). Oni wneir hyn ni ellir darlledu'r perfformiad. Lle defnyddir darn hawlfraint o fewn perfformiad a gyfansoddwyd yn wreiddiol (e.e. Cyflwyniad Digri/Cân Actol ayyb), cyfrifoldeb y cystadleuydd yw i sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer defnyddio'r darn. Rhaid i'r fath ganiatâd alluogi i'r Urdd, S4C ac/neu unrhyw drydydd parti wneud y perfformiad ar gael yn ddigyfngiad, yn fyd-eang, yn ddi-freindal drwy bob cyfrwng neu ddull dosbarthu (sy'n bodoli nawr neu a ddatblygir yn y dyfodol).

Ceir cymorth ar glirio hawlfraint drwy glicio isod. Gellir hefyd ffonio Adran Gymraeg PRS for Music ar 020 7306 4033 neu e-bostio welshvprogrammes@prsformusic.com

Nid oes angen caniatâd i ddefnyddio'r darnau sy'n ymddangos yn y Rhestr Testunau. Anogir pawb i ddewis caneuon na fydd yn creu trafferthion wrth eu darlledu. Dylid osgoi ambell gyfansoddwr/grŵp gan nad oes modd sicrhau hawlfraint darlledu'r gân.

25 Nifer Cangen Ysgol

Wrth gyfri'r nifer o ddisgyblion mewn cangen ysgol ar gyfer cystadlu dylid eu cyfrif o ddosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6 ar Ionawr 31. Mewn ysgolion 3-18 oed neu 3-16 oed, dylid cyfrif y disgyblion perthnasol hyd at flwyddyn 6.

26 Llwyfannu Cystadleuaeth

Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i beidio â llwyfannu pob cystadleuaeth ar brif lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

27 Darlledu

Deil yr Urdd yr hawl i drefnu darlledu, teledu neu recordio unrhyw ran o weithgareddau'r Eisteddfod heb ymgynghori ymlaen llaw â'r ymgeiswyr, cyfeilyddion na'r beirniaid ym mhob Eisteddfod Gylch/Sir/Rhanbarth/Genedlaethol. Wrth dderbyn tocyn i fynychu'r Maes neu Eisteddfod Gylch/Sir/Rhanbarth/Genedlaethol, rydych yn cydnabod bod posibilrwydd y bydd eich delwedd yn cael ei recordio a'i ddarlledu. Eiddo'r Urdd fydd unrhyw gydnabyddiaeth a geir am hynny, ac i'r perwyl hynny mae'r ymgeiswyr yn cytuno i ildio yn ddigyfnewid yr holl 'hawliau moesol' fel y'u gelwir (gan gynnwys ond heb gyfyngiad unrhyw hawliau o dan Adran 77 ac 80 y Ddeddf Cynlluniau, Hawlfraint a Phatentau 1988) neu unrhyw ddeddfau tebyg o awdurdodaeth.

28 Cydymffurfio i'r Rheolau

Wrth gofrestru ar-lein i gystadlu mae pob cystadleuydd, hyfforddwr, rhiant a chefnogwr yn ymrwmo i gydymffurfio gyda holl reolau cystadlu, amodau cyffredinol a chod ymddygiad yr Urdd. Tynnir sylw pob cystadleuydd, hyfforddwr a rhiant at Hysbysiad Preifatrwydd yr Urdd sydd i'w weld ar <http://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/polisiau-urdd/cyfrinachedd/>

29 Cyhoeddi

Bydd gan yr Urdd hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r gwaith Cyfansoddi a Chreu a ddyfernir yn fuddugol ac i'w defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol, a hynny heb geisio caniatâd pellach yr awduron na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

30 Perfformiadau Cyhoeddus

Wrth gyflwyno ffurflen gofrestru mae rhieni/gwarchodwyr/arweinyddion canghennau/athrawon/hyfforddwyr yn cydnabod fod holl Eisteddfodau'r Urdd yn ddigwyddiadau cyhoeddus a

bydd aelodau yn ymddangos ar lwyfan cyhoeddus o flaen y cyhoedd sydd yn mynychu'r digwyddiadau. Cyhoeddir enwau cystadleuwyr ac enwau canghennau/ysgolion oddi ar lwyfan yr Eisteddfodau ac mewn rhagbrofion. Cyhoeddir enwau cystadleuwyr ac enwau canghennau/ysgolion mewn dogfennau gweinyddol mewnol yr Urdd. Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, rhennir enwau'r cystadleuwyr ac enwau'r canghennau gyda'r wasg gan gynnwys cwmnïau teledu a radio. Mae posibilrwydd y bydd enwau a lluniau cystadleuwyr Eisteddfodau'r Urdd yn ymddangos yn gyhoeddus ar wefan yr Urdd (e.e. canlyniadau'r Eisteddfodau) ac ar blatfformau cyhoeddus eraill gan gynnwys ond heb gyfyngiad, papurau newydd, papurau bro, gwefannau eraill ac ar gyfryngau cymdeithasol yr Urdd ac eraill. Darlledir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn fyw ar y teledu ac ar y radio a darlledir yn helaeth o'r Maes (gweler rheol 27).

Cyfrifoldeb rhieni/gwarchodwyr/arweinyddion canghennau/athrawon/hyfforddwyr yw hysbysu'r Urdd o unrhyw achos dros beidio â datgelu gwybodaeth unrhyw aelod. Mae'r Urdd yn barod i gydymffurfio, cydweithio a hwyluso'r broses er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r mudiad yn medru cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd yn unol â dymuniadau rhieni/gwarchodwyr.

31 Newidiadau i'r Rhestr Testunau

Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r Rhestr Testunau yn ymddangos ar wefan Eisteddfod yr Urdd: urdd.cymru/eisteddfod o dan y pennawd Rhestr Testunau/Newidiadau. Os oes unrhyw wahaniaeth rhwng y Rhestr Testunau Cymraeg a'r un Saesneg, rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg.

32 Llety

Nid yw'r Urdd yn darparu llety ar gyfer cystadleuwyr. Os am gymorth parthed gwestai a chanolfannau aros, ewch i'r wefan urdd.cymru/eisteddfod.

33 Gwobrwyo

Rhoddir tystysgrif a medal yr Eisteddfod i'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mewn cystadlaethau torfol, rhoddir un fedal yn unig ond mae modd prynu mwy o fedalau trwy'r Adran Eisteddfod.

34 Maint Llwyfan

Maint llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yw oddeutu 10m x 8m. Gall maint llwyfannau yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir/Rhanbarth fod yn llai a dylid addasu unrhyw berfformiad i'r gofod sydd ar gael.

35 "Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadleuwyr, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwmo i ysbryd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad".

Rheolau Cyffredinol y Dysgwyr

1 Cynradd

Dysgwyr yw aelodau nad ydynt wedi/yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Ond, os ydynt yn hwyrddfyodiaid di-Gymraeg mewn ysgol lle mae mwyafrif y disgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, caniateir iddynt gystadlu fel dysgwyr am eu tair blynedd gyntaf yn yr ysgol.

2 Uwchradd

Dysgwyr yw'r aelodau hynny nad ydynt wedi/yn dilyn Rhaglen astudio Cymraeg yng nghyfnod allweddol 1, 2 na 3. Caniateir hwyrddfyodiaid di-Gymraeg i gystadlu fel dysgwyr.

Hyderwn na fydd aelodau lle mae un rhiant yn y cartref yn gallu'r Gymraeg yn cystadlu fel dysgwyr. Caniateir aelodau cynradd sy'n symud i sector addysg cyfrwng Saesneg ar ôl cyfnod yn y sector cyfrwng Cymraeg i gystadlu fel dysgwyr mewn cystadlaethau torfol i ddysgwyr yn unig.

3 Dilysrwydd

Wrth gofrestru cystadleuwyr, mae'r arweinydd yn gwarantu dilysrwydd pob cystadleuydd yng nghystadlaethau Adran y Dysgwyr.

4 Mae Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn ogystal â'r rheolau cystadlu a nodir ym mhob adran arall yn berthnasol hefyd i gystadlaethau'r Dysgwyr.

Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd

1 Adran Ysgol

Pob cangen sydd yn gweithredu o fewn naill ai Ysgol Gynradd neu Ysgol Uwchradd yn unig.

2 Adran/Aelwyd

Cangen o'r Urdd sy'n agored i holl aelodau cofrestredig y Mudiad o'r oedran priodol, sy'n cyfarfod ac yn ymarfer yn annibynnol o'r gyfundrefn addysgol. Byddant yn cwrdd y tu allan i oriau a threfniant ysgol neu goleg, gyda rhaglen o weithgareddau o dymor yr Hydref ymlaen, heb fod yn estyniad o waith yr Urdd o fewn ysgol neu goleg.

3 Ysgolion Perfformio/Arbenigol

Mae croeso i Ysgolion Perfformio/Arbenigol gystadlu yn yr Eisteddfod yn y categorïau oedran perthnasol, ac eithrio cystadlaethau sy'n gyfyngedig i Ysgolion, Adrannau neu Aelwydydd. Os ydych angen rhagor o arweiniad, cysylltwch ag Adran yr Eisteddfod.

Er mwyn cael yr hawl i gystadlu, mae'n rhaid i bob cangen o'r Urdd, boed yn Adran, Aelwyd, Ysgol neu Ysgol Berfformio/Arbenigol gofrestru gyda'r Mudiad yn flynyddol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Swyddfa'r Urdd, Llangrannog: 01239 652 162.

Sut i Gystadlu

Cystadlaethau Maes a Llwyfan

- 1 Porwch trwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffech gystadlu ynddi/ynddynt.
- 2 Sicrhewch fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2018/2019 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan.
- 3 Bydd angen cofrestru i gystadlu ym mhob cystadleuaeth cyn dyddiad cau eich Sir/Rhanbarth. Ceir rhestr o'r dyddiadau cau ar ein gwefan.
- 4 Bydd pawb sydd yn cofrestru yn cael eu gwahodd i gystadlu yn eu Heisteddfod Cylch neu Sir/Rhanbarth.
- 5 Bydd rhai cystadlaethau Maes a Llwyfan yn hepgor yr Eisteddfodau Cylch a Sir/Rhanbarth, ac yn ymddangos yn syth yn y Genedlaethol. Ceir rhestr o'r cystadlaethau hyn ar dudalen olaf y Rhestr Testunau.
- 6 Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

- 1 Porwch trwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffech gystadlu ynddynt.
- 2 Sicrhewch fod pob un sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2018/2019 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan.
- 3 Bydd angen gyrru pob cynnyrch, ac eithrio'r adran Celf, Dylunio a Thechnoleg, i Swyddfa'r Eisteddfod, Glan-llyn erbyn Mawrth 1, 2019. Y dyddiad cau ar gyfer cystadleuaeth Meithrin Talent - Talent Meithrin yw Rhagfyr 31, 2018.
- 4 Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.


Cyflwyno Gwaith

Cyflwyno Gwaith Drwy'r Post

Cam 1

Nodwch y canlynol ar damaid o bapur gwag:


Rhif y gystadleuaeth
Eich ffugenw
Eich rhif aelodaeth
Eich enw llawn
Enw'r Adran, Aelwyd neu Ysgol
Enw eich Cylch
Enw eich Sir neu Ranbarth
Eich dyddiad Geni



Cam 2

Rhowch y papur yma mewn amlen gan nodi ar y blaen:


Rhif y gystadleuaeth
Eich ffugenw
Eich rhif aelodaeth



Cam 3

Nodwch y canlynol ar gornel dde uchaf eich gwaith:


Rhif y gystadlaueaeth
Eich ffugenw
Eich rhif aelodaeth
Peidiwch â rhoi eich enw ar y gwaith



Cam 4

Rhowch yr amlen ac eich gwaith mewn amlen newydd a'i yrru i'r cyfeiriad isod:

Cyfansoddi a Chreu,
Adran yr Eisteddfod,
Gwersyll yr Urdd,
Glan-llyn, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7ST




Cyflwyno Gwaith Drwy Ebost

Cam 1

Crëwch ddogfen wag a nodi'r canlynol:


Rhif y gystadleuaeth
Eich ffugenw
Eich rhif aelodaeth
Eich enw llawn
Enw'r Adran, Aelwyd neu Ysgol
Enw eich Cylch
Enw eich Sir neu Ranbarth
Eich dyddiad Geni



Cam 2

Arbedwch y ddogfen fel PDF ac enwi'r ffeil â'r manylion canlynol:

Rhif y gystadleuaeth
Eich ffugenw
Y llythrennau 'ADS'



Cam 3

Arbedwch eich gwaith fel PDF ac enwi'r ffeil â'r manylion canlynol:

Rhif y gystadlaueaeth
Eich ffugenw
Eich rhif aelodaeth
Peidiwch â rhoi eich enw yn enw'r ffeil



Cam 4

Atodwch y ddwy ddogfen i ebost at cyfansoddi@urdd.org. Byddwch yn derbyn cadarnhad fod yr Urdd wedi derbyn eich ebost.



Dyddiadau i'w Cofio

Mehefin /
Gorffennaf
2018

Pwyllgorau Cylch/Sir/Rhanbarth i bennu dyddiadau'r Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth.

9
Mai
2019

Beirniadu Celf, Dylunio a Thechnoleg cenedlaethol.

31
Ionawr
2019

Y dyddiad olaf i gyfrif y disgyblion mewn ysgol.

20
Mehefin
2019

Y dyddiad olaf y bydd Adran yr Eisteddfod yn derbyn cais am ddychwelyd cynnyrch yr adrannau Cyfansoddi a Chreu.

Ionawr /
Chwefror
2019

Dyddiad cau cofrestru i gystadlu pendant i bob Sir/Rhanbarth. Rhaid cofrestru pob cystadleuydd erbyn y dyddiad cau.

31
Awst
2019

Rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol i gystadlu ar y dyddiad hwn.

1
Mawrth
2019

Holl gynnyrch Cyfansoddi a Chreu i gyrraedd Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn a dyddiad cau cofrestru cystadlaethau tudalen 69.

7-10
Mawrth
2019

Rhai o fuddugwyr Eisteddfod 2018 yn perfformio yn yr Ŵyl Gymreig, Disneyland Paris.

9
Mawrth
2019

Eisteddfod tu allan i Gymru

27 Mai-
1 Mehefin
2019

Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Fro.

Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru

Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Tîm Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cyfarwyddwr	Aled Siôn
Trefnydd yr Eisteddfod	Morys Gruffydd
Trefnyddion Cynorthwyo	Steffan Prys Roberts Catherine Tudor Jones Alaw Llwyd Owen
Tîm Gweinyddol	Nesta Jones a Ruth Morris
Rheolwr Maes	Sarah Cole
Cydlunydd Maes	Meilir Aled Evans

Tîm Adran Gyfathrebu a Datblygu

Cyfarwyddwr	Mali Thomas
Rheolwr Nawdd a Datblygu	Siân Stephen Angharad Wyn Jones
Swyddog Marchnata	Branwen Rhys
Swyddog Cyfathrebu	Sioned Wyn

Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cadeirydd	Gwenno Mair Davies
Celf, Dylunio a Thechnoleg	Anwen Bumby
Cerdd Dant	Elsbeth Pierce Jones
Cerddoriaeth	Patric Stephens
Dawns	Ian Roberts
Dysgwyr	Llinos Penfold
Llefaru	Elin Williams
Llenyddiaeth	Hywel Griffiths
Theatr	Peter Davies

Aelodau eraill

Carys Griffiths Jones, Catrin Passmore, Catrin Williams, Dai Baker, Dan Rowbotham, Delma Thomas, Dennis Davies, Dilwyn Price, Donna George, Eirlys Wyn Thomas, Esyllt Lewis, Esyllt Tudor, Eurig Davies, Gwawr Davies, Helen Medi Williams, Hywel Griffiths, Jeremy Griffiths, Llinos Mary Jones, M. Rhiannon Lewis, Maria Jones, Menna Jones, Meriel Parry, Nerys Griffiths, Nia Wyn Evans, Owain Talfryn Morris, Peter Davies, Sara Davies, Shan Evans, Heledd Clarke, Shan Wyn Jones, Stephen Mason, Tegwen Ellis, Tudur Dylan Jones, W. Dyfrig Davies, Gareth Ffowc Roberts

Swyddogion Eisteddfod Caerdydd a'r Fro 2019

Swyddog Datblygu

Geraint Scott

Llywyddion Anrhydeddus

Alun Guy, Gwilym Roberts, Emyr Edwards, Gaenor Mai Jones

Llywyddion y Dydd

Huw Stephens, Betsan Powys, Iwan Rheon, Tanni Grey-Thompson

Swyddogion Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Prif Weithredwr

Sian Lewis

Llywydd

Nia Hâf

Cadeirydd y Cyngor

W. Dyfrig Davies

Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Gwenno Mair Davies

Is-gadeirydd a Thrysorydd y Bwrdd Busnes

Rheon Tomos

Ysgrifennydd a Chadeirydd Bwrdd y Maes

Andrea Parry

Llywyddion Anrhydeddus

Prys Edwards, Wynne Melville Jones a Bob Roberts

Ymddiriedolwyr

Carol Davies, W. Dyfrig Davies, Siôn Edwards, Tudur Dylan Jones, Rhiannon Lewis, Gwyn Morris, Andrea Parry, Meriel Parry, Dilwyn Price, Bob Roberts, Rheon Tomos, Aled Walters

Cyfeiriadau Cyhoeddwr

Atebol

Adeiladau'r Fagwyr
Llandre, Aberystwyth
01970 832172

Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Delyth Vaughan Rowlands, Vanner,
Llanelltyd, Dolgellau,
Gwynedd LL40 2HE
01341 422854
www.cerdd-dant.org
cerdd.dant.cymru@gmail.com

Y Lolfa

Talybont, Ceredigion SY24 5AP
01970 832304

Barddas

Ffion Medi, Noddfa, Pentre Isaf,
Tregaron, Ceredigion, SY25 6ND
07795 507 866
ffion@barddas.cymru

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Palas Print, 10 Palace Street, Caernarfon,
Gwynedd LL55 1RR
01286 674631

Samuel King Music Publisher

PO Box 166, Northwood,
Middlesex, HA6 2FL
01923 841 645
ralph@samuelking.org

Cyhoeddiadau Curiad

Uned 6 a 9 Capel Salem, Ffordd Bryncelyn,
Talsarn, Caernarfon LL54 6AB
01286 882166
www.curiad.co.uk
curiad@curiad.co.uk

Gwasg Carreg Gwalch

12 Iard yr Orsaf, Llanrwst,
Conwy LL26 0EH
01492 642031

Gwasg y Bwthyn

Lon Ddewi, Caernarfon LL54 7TJ
01286 672018

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Gellir lawrlwytho'r holl ddarnau o wefan y
cwmni: www.gwynn.co.uk neu gellir archebu
copi drwy ebost, gwynn@gwynn.co.uk

Gwasg Gomer

Parc Menter Llandysul, Llandysul,
Ceredigion SA44 4JL
01559 363 371

Gwasg y Dref Wen

28 Church Rd, Caerdydd CF14 2EA
02920 617860

Cyhoeddiadau Sain

Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon,
Gwynedd LL54 5TG
01286 831111

Tŷ Cerdd

Copi digidol
www.darganfodcerddoriaethcymru.com
Copi print
ymholiadau@tycerdd.org
02920 635640

Clwyd Music

Ceinwen Roberts, Clwyd Music, Heulfre,
The Groves, Northop Hall, Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint
01244 816 100
harping@mac.com

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Gallwch archebu copïau o gyhoeddiadau
Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru trwy
eich siop lyfrau lleol, ond os oes anhawster,
cysylltwch â Rhidian Griffiths, Coed y
Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth
SY23 2HX / rhcgriffiths@btinternet.com

Urdd Gobaith Cymru

Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd,
Glan-llyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
01678 541014

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

Cerddoriaeth Lleisiol.....	17
Canu Gwerin.....	22
Cerddoriaeth Offerynnol.....	22
Band/Artist Unigol.....	27
Cerdd Dant.....	27
CogUrdd.....	30
Dawnsio Gwerin.....	31
Dawns.....	33
Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo.....	34
Llefaru.....	35
Siarad Cyhoeddus.....	36
Theatr.....	37
Trin Gwallt a Harddwch.....	40

Clic!

Gallwch glicio ar unrhyw
un o'r adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Cerddoriaeth Lleisiol

1	Unawd Bl.2 ac iau	Mae'n Ddrwg Gen i, Leah Owen <i>Copi cyfredol ar gael fel taflen unigol o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain</i> Geiriau Cymraeg: Angharad Llwyd
2	Unawd Bl.3 a 4	Cofio, Robat Arwyn <i>Taro Deuddeg, Gwasg y Bwthyn</i> Geiriau Cymraeg: Cefin Roberts Ym mar 43, gellir dewis enw i lefaru neu ddefnyddio 'Mistar Urdd'.
3	Unawd Bl.5 a 6	Fy Ngardd Fach i, J. Eirian Jones <i>Cynghanedd Cariad 3, Y Lolfa</i> Cywair C (C^D') a Bb (Bb^C') Gellir dewis canu'r nodyn uchaf neu'r nodyn isaf yn y ddau far olaf.
4	Deuawd Bl.6 ac iau	Beth?, Annette Bryn Parri <i>Taro Deuddeg, Gwasg y Bwthyn</i> Geiriau Cymraeg: Cefin Roberts
5	Parti Bl.6 ac iau (Ad) Dim mwy na 12 mewn nifer	Cân y Sipsi, Delyth Hopkins Evans <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i>
6	Parti Unsain Bl.6 ac iau (D) Dim mwy na 12 mewn nifer	Ceidwad Byd, Eric Jones <i>Ffordd Tangnefedd, Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: Garry Owen I'w chanu'n unsain gan yr holl barti. Dylid dilyn y nodau uchaf bob tro pan yn perfformio'r darn hwn fel parti neu gôr unsain.
7	Côr Bl.6 ac iau (Ad) 11-25 mewn nifer	Dyn y Tywydd, Eric Jones <i>Hwyl a Hoe, Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: Arwel John
8	Parti Unsain Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â hyd at 50 o blant Dim mwy na 12 mewn nifer	Lle Bach Tlws, J. Eirian Jones <i>Cynghanedd Cariad 3, Y Lolfa</i> I'w chanu yng nghywair D yn unig.
9	Parti Unsain Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â thros 50 o blant rhwng 4-11 oed Dim mwy na 12 mewn nifer	Tymhorau, Morfudd Sinclair <i>Byddwch Lawen, Cyhoeddiadau Sain</i> Rhaid hepgor yr offer taro a'r recorder.

10	Côr Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â hyd at 150 o blant rhwng 4-11 oed 11-25 mewn nifer	Cân y Botymau, Dilwyn Roberts <i>Taflen Unigol, Cwmni Cyhoeddi Gwynn</i> Trefniant: Sioned Webb I'w chanu yn C fwyaf.
11	Côr Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â thros 150 o blant rhwng 4-11 oed 20-40 mewn nifer	Glyndŵr, Leah Owen <i>Copi ar gael i'w lawrlwytho o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain</i> Geiriau Cymraeg: Angharad Llwyd
12	Parti Deulais Bl.6 ac iau (YC/Ad) 12-16 mewn nifer	Hiraeth am y Seren, E. Olwen Jones <i>Hiraeth am y Seren a Charolau eraill, Cyhoeddiadau Sain</i>
13	Ensemble Lleisiol Bl.6 ac iau (YC/Ad) 3-8 mewn nifer Digyfeiliant	Hunan-ddewisiad Un darn digyfeiliant, trillais neu fwy (i'w chanu yn y Gymraeg) Dim hwy na 3 munud. Caniateir dyblu lleisiau. Ni chaniateir arweinydd.
14	Unawd Merched Bl.7, 8 a 9	A Gaf Fi Sefyll Fory?, Eric Jones <i>Hwyl a Hoe, Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: Arwel John Cywair Eb (Bb^Eb') a F (C^F') Gweler 'O'r Newydd' ar gyfer y fersiwn yng nghywair Eb fwyaf sydd yn y llyfr Hwyl a Hoe.
15	Unawd Bechgyn Bl.7, 8 a 9	Llansteffan, Idris Lewis <i>Copi ar gael o wefan Ty Cerdd, Tŷ Cerdd</i> Trefniant: Idris Lewis Cywair F (F^F'), Cywair D (D^D') Cywair C fwyaf (C^C') Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal a lleisiau sydd wedi torri.
16	Deuawd Bl.7, 8 a 9	Sêr, Nia Wyn Jones <i>Cwlwm Cân, Cyhoeddiadau Sain</i> Geiriau Cymraeg: Iwan Hughes
17	Unawd Merched Bl.10 a dan 19 oed	Hŷn na'r Coed, Robat Arwyn <i>Unawdau 2000, Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: Robin Llwyd ab Owain Cywair Bb (Ab^D') a Db (Cb^F') neu Rho 'Fory i Minnau, Delyth Rees <i>Hufen o Gân, Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: Eleri Richards Cywair Eb (Bb^Eb') a G (D^G') Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol. Cyflwynir Ysgoloriaeth Mrs Olwen Phillips a rhodd Capel Cymraeg Melbourne Awstralia i'r unawdydd mwyaf addawol rhwng 15 ac 19 oed (Cystadlaethau 17 ac 18).

18 Unawd Bechgyn Bl.10 a dan 19 oed**Hŷn na'r Coed, Robat Arwyn***Unawdau 2000, Cyhoeddiadau Curiad*

Geiriau Cymraeg: Robin Llwyd ab Owain

Cywair Bb (Ab[♯]D[♯]) a Db (Cb[♯]F[♯])**neu****Rho 'Fory i Minnau, Delyth Rees***Hufen o Gân, Cyhoeddiadau Curiad*

Geiriau Cymraeg: Eleri Richards

Cywair Eb (Bb[♯]Eb[♯]) a G (D[♯]G[♯])

Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol. Cyflwynir Ysgoloriaeth Mrs Olwen Phillips a rhodd Capel Cymraeg Melbourne Awstralia i'r unawdydd mwyaf addawol rhwng 15 ac 19 oed (Cystadlaethau 17 ac 18).

19 Deuawd Bl.10 a dan 19 oed**Caer Wydion, Nia Wyn Jones***Cwlwm Cân, Cyhoeddiadau Sain*

Geiriau Cymraeg: Iwan Hughes

20 Unawd 19-25 oed

Caniateir dewis unrhyw un o'r caneuon isod yn y cyweiriau a nodir gan ddefnyddio'r argraffiad a nodir isod. Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol. Rhaid i bob unawdydd ddarparu ei gyfeilydd ei hun yn y gystadleuaeth hon.

Rho Olau i Mreuddwydion i (Shine Through My Dreams), Ivor Novello

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Geiriau Cymraeg: Emyr Davies

Cywair C (E[♯]G[♯]) a G (B[♯]D[♯])**Anwylaf Un (My Dearest Dear), Ivor Novello**

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Geiriau Cymraeg: Emyr Davies

Cywair G (D[♯]G[♯]) a Eb (Bb[♯]Eb[♯])**Rwy'n Eiddo Byth i Ti (My Life Belongs To You), Ivor Novello**

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Geiriau Cymraeg: Emyr Davies

Cywair Bb (D[♯]F[♯]) a G (B[♯]D[♯])**Dawns Dan fy Mron (Waltz of my Heart), Ivor Novello**

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Geiriau Cymraeg: Emyr Davies

Cywair Eb (Bb[♯]G[♯]) a C (G[♯]E[♯])**21 Parti Deusain Bl.9 ac iau (Ad)**

Dim mwy na 16 mewn nifer

Y Daith sy'n Hir, Eric Jones*Ffordd Tangnefedd, Cyhoeddiadau Curiad*

Geiriau Cymraeg: Garry Owen

22 Côr Bl.9 ac iau (Ad)

17-30 mewn nifer

Mae'r Môr yn Faith, Traddodiadol*Ar gael i'w lawrlwytho o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain*

Trefniant: Hefin Elis

Geiriau Cymraeg: Dafydd Iwan

23	Parti Merched Bl.7, 8 a 9 12-16 mewn nifer	Heddwch, Eric Jones <i>Curiad (2045), Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: T. Elfyn Jones
24	Parti Bechgyn Bl.7, 8 a 9 2-16 mewn nifer	Byw Fyddi Nant Gwrtheyrn, Robat Arwyn <i>Taflen Unigol, Y Lolfa</i> Copi deulais ar gael i'w lawrlwytho. Nid y fersiwn trillais yn 'Gwin Beajolais'
25	Côr S.A. Bl.7, 8 a 9 20-40 mewn nifer	Y Ci Coch, Brian Hughes <i>Cyhoeddwy: Samuel King</i>
26	Côr Merched S.A. Bl.13 ac iau 10-20 mewn nifer	Trychineb yr SS Swiftsure, Richard Vaughan <i>Curiad (2068), Cyhoeddiadau Curiad</i> Geiriau Cymraeg: Ifan Pleming
27	Côr Bechgyn T.B. Bl.13 ac iau 10-20 mewn nifer	O Gymru, Rhys Jones <i>Taflen Unigol ar gael i'w lawrlwytho o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain</i> Geiriau Cymraeg: Leslie Harries, addas. Aled Lloyd Davies
28	Côr S.A.T.B. Bl.13 ac iau 20-40 mewn nifer	Pwy All Fesur Lled y Cariad?, Meirion Wynn Jones <i>Taflen Unigol ar gael i'w lawrlwytho o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain</i> Geiriau Cymraeg: Peter M. Thomas
29	Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9 3-6 mewn nifer Digyfeiliant	Hunan-ddewisiad Un darn yn unig i'w chanu yn y Gymraeg Dim hwy na 4 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir arweinydd. Ni all yr un parti gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 29 a 31. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd.
30	Ensemble Lleisiol Bl.10 a dan 19 oed 3-6 mewn nifer Digyfeiliant	Hunan-ddewisiad Un darn yn unig i'w chanu yn y Gymraeg Dim hwy na 5 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir arweinydd. Ni all yr un parti gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 30 a 31. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd.
31	Ensemble Lleisiol 14-25 oed (Ae) 3-6 mewn nifer Digyfeiliant	Hunan-ddewisiad Un darn yn unig i'w chanu yn y Gymraeg Dim hwy na 5 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob person unigol. Ni chaniateir arweinydd. Ni all yr un parti gystadlu gyda'r un darn yng nghystadlaethau 29, 30 a 31. Dylid lawrlwytho canllawiau dewis darn addas o wefan yr Urdd.

32 Côr Merched S.S.A. 14-25 oed (Ae)
16–30 mewn nifer

Bylchau, Eric Jones
Curiad (2048), Cyhoeddiadau Curiad
Geiriau Cymraeg: Ceri Wyn Jones

Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

33 Côr Meibion Tri Llais 14-25 oed (Ae)
16–30 mewn nifer

Cân y Celt, Meinir Lloyd
Taflen Unigol ar gael i'w lawrlwytho o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain
Trefniant: Annette Bryn Parri
Geiriau Cymraeg: Peter Hughes Griffiths

Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

34 Côr S.A.T.B. 14-25 oed (Ae)
Dim mwy na 40 mewn nifer

Hiraeth yr Hwyrnos, Alwyn Humphreys
Taflen Unigol ar gael i'w lawrlwytho o wefan Sain, Cyhoeddiadau Sain
Geiriau Cymraeg: Alwyn Humphreys

Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

35 Côr S.A.T.B 14-25 oed (Ae)
Dros 40 mewn nifer

Gwinllan a Roddwyd, Caradog Williams
Taflen Unigol ar gael i'w lawrlwytho, Tŷ Cerdd

Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerddoriaeth Lleisiol

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Cymraeg yw iaith pob darn prawf a phob hunan-ddewisiad.
- Caniateir i dri pharti neu gôr gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhifau 31, 32, 33, 34, 35.
- Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol nac ychwaith newid cyweirnod unrhyw gystadleuaeth, oni nodir yn wahanol.
- Rhaid i unigolion, partion a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu'r nifer o benillion a nodir yn y Rhestr Testunau.
- Rhaid i bartion a chorau ddod â'u cyfeilyddion ac arweinyddion eu hunain, a gall y rheini fod yn bobl mewn oed, oni nodir yn wahanol.
- Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun yn nghystadlaethau 20, 158, 159 a 160 ar gyfer yr Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth yn ogystal a'r Genedlaethol.
- Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- Os nodir fod cystadleuaeth yn hunan-ddewisiad, rhaid anfon copïau gydag enw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif y gystadleuaeth at drefnydd yr Eisteddfod Gylch wrth gofrestru i gystadlu ar-lein.
- Mae'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi eu cyhoeddi.
- Yng nghystadlaethau rhifau 11, 24 a 33 caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas yn ychwanegol i'r piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol feirnedir.
- Ni chaniateir defnyddio traciau cefndir wedi'u recordio ymlaen llaw i gyfeilio, oni nodir yn wahanol.
- Disgwylir i'r cystadleuwyr fod yn barod i berfformio yn syth ar ôl cyrraedd y llwyfan.
- Ni fydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth, ond bydd setiau ar gael ar gyfer rhagbrofion a llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Gofynnir yn garedig i gystadleuwyr yr Unawd Taro i ddefnyddio'r drymiau a ddarperir gan yr Urdd, yn y Genedlaethol.

Beirniad

Eric Jones, Mari Pritchard, Gwennant Pyrs, Tudur Eames, Ann Davies, Sian Meinir, Elin Llywelyn, Eilir Owen Griffiths, Steffan Jones, Lewis Richards, Islwyn Evans

Canu Gwerin

36	Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau	Deryn y Bwn o'r Banna <i>Caneuon Traddodiadol y Cymry (diwygiedig), Cyhoeddiadau Gwynn</i> I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd.
37	Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.7, 8 a 9	Ffair Henfeddau <i>Canu'r Cymry 1/2, Cwmni Cyhoeddi Gwynn</i> I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd.
38	Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.10 a dan 19 oed	Marchnad Llangollen neu Lliw'r Heulwen <i>Caneuon Traddodiadol y Cymry (diwygiedig), Cwmni Cyhoeddi Gwynn</i> I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd.
39	Cyflwyno Alaw Werin Unigol 19–25 oed	Hiraeth neu Tra Bo Dau a hunan-ddewisiad cyferbyniol <i>Caneuon Traddodiadol y Cymry (diwygiedig), Cwmni Cyhoeddi Gwynn</i> I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd.
40	Côr Gwerin Tri Llais Bl.13 ac iau Hyd at 40 o leisiau	Hunan-ddewisiad I'w chanu'n ddigyfeiliant mewn unrhyw gywair addas i'r cystadleuydd. Dim hwy na 4 munud.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Canu Gwerin

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Dylid parchu mydr naturiol y geiriau sy'n gallu amrywio o bennill i bennill. Gweler taflen gan y Gymdeithas Alawon Gwerin ar wefan yr Urdd.

Beirniad

Alaw Werin: Abigail Sarah

Cerddoriaeth Offerynnol

41	Unawd Telyn Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud
42	Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud

43	Unawd Gitâr Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Ni fydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn
44	Unawd Chwythbrennau Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud
45	Unawd Pres Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud
46	Unawd Piano Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud
47	Unawd Offer Taro Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Gweler rheol rhif 12 offerynnol. Ni fydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn.
48	Parti Recorder Bl.6 ac iau Dim mwy nag 16 mewn nifer	Hunan-ddewisiad deiran neu fwy Dim hwy na 3 munud Disgwylir i'r grŵp ddarparu copi o'r sgôr cyflawn (gweler rheol offerynnol rhif 6). Gellir cynnwys recorders gwahanol. Caniateir arweinydd. Ni chaniateir cyfeilydd.
49	Ensemble Offerynnol Bl.6 ac iau 3-10 mewn nifer	Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 4 munud. Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir parti recorder. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o'r sgôr cyflawn (gweler rheol offerynnol rhif 6).
50	Cerddorfa/Band Bl.6 ac iau Dros 10 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Caniateir unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio parti recorder. Caniateir hyd at dri munud i osod a thiwnio. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o'r sgôr cyflawn (gweler rheol offerynnol rhif 6).
51	Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Bl.6 ac iau Dim mwy na 30 mewn nifer	Bwrlwm Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol Dim hwy na 4 munud Unrhyw gyfuniad o offerynnau ac eithrio parti recorder. Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd.

52	Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Ysgolion/ Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol a Chymedrol) Dim mwy na 30 mewn nifer	Bwrlwm Cyfansoddiad lleisiol ac offerynnol gwreiddiol Dim hwy na 4 munud Ni chaniateir cyfeilydd. Caniateir arweinydd. Ni chynhelir y gystadleuaeth hon yn yr Eisteddfod Gylch a Rhanbarth (gweler tudalen 69).
53	Unawd Telyn Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud
54	Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud
55	Unawd Gitâr Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud Ni fydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn.
56	Unawd Chwythbrennau Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud
57	Unawd Pres Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud
58	Unawd Piano Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud
59	Unawd Offer Taro Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud Gweler rheol rhif 12 offerynnol. Ni fydd y gystadleuaeth yn ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn.
60	Ensemble Offerynnol Bl.7, 8 a 9 3-10 mewn nifer	Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 5 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau 53-59 gan yr un cystadleuwyr. Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler rheol offerynnol rhif 6).
61	Unawd Telyn Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud

62	Unawd Llinynnol (ac eithrio'r gitâr) Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud
63	Unawd Gitâr Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad heb fod yn hwy na 7 munud Dim hwy na 7 munud Ni fydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn.
64	Unawd Chwythbrennau Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud
65	Unawd Pres Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud
66	Unawd Piano Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud
67	Unawd Offer Taro Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud Gweler rheol rhif 12 offerynnol. Ni fydd y gystadleuaeth hon yn ymddangos ar lwyfan y Pafiliwn.
68	Deuawd Offerynnol Bl.13 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud Ni chaniateir perfformio yr un darn/au yn y cystadlaethau unigol 41-47, 53-59, 61-67. Cystadleuaeth ar gyfer dau berson yn unig yw hon. Ni chaniateir e.e. dau ffliwt a chyfeiliant piano.
69	Ensemble Offerynnol Bl.10 a dan 19 oed 3-10 mewn nifer	Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 8 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o offerynnau. Ni chaniateir arweinydd. Ni chaniateir perfformio'r un darn yng nghystadlaethau 61-68 gan yr un cystadleuwyr. Disgwylir i'r ensemble gyflwyno sgôr gyflawn o'r gerddoriaeth. Rhaid i holl aelodau 'Ysgol' fod yn ddisgyblion yr ysgol honno.
70	Unawd Offerynnol 19-25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 7 munud
71	Ensemble Offerynnol 19-25 oed 3-10 mewn nifer	Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 8 munud Dylid cael llinell annibynnol i bob offerynnwr. Gellir cynnwys unrhyw gyfuniad o offerynnau. Ni chaniateir arweinydd. Disgwylir i'r ensemble gyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler rheol offerynnol rhif 6). Rhaid i holl aelodau 'Ysgol' fod yn ddisgyblion yr ysgol honno.

72 Cerddorfa/Band dan 19 oed

Dim llai na 10 mewn nifer

Cyflwyno rhaglen heb fod yn hwy na 8 munud

Caniateir hyd at 5 munud i diwnio. Caniateir arweinydd.

Disgwylir i'r grŵp gyflwyno copi o sgôr cyflawn o'r gerddoriaeth (gweler rheol offerynnol rhif 6). Rhaid i holl aelodau'r Band/Cerddorfa Ysgol fod yn ddisgyblion yr ysgol honno.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Offerynnol

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid i bob cystadleuydd berfformio'r un darn/au ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- 3 Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Ni chaniateir cyfeiliant sydd wedi ei recordio o flaen llaw ac eithrio'r cystadlaethau Unawd Gitâr ac Offer Taro ble caniateir traciau offerynnol/yn yr iaith Gymraeg – ond ni ddylai'r trac gynnwys y rhan a berfformir gan y cystadleuydd.
- 4 Caniateir arweinydd yng nghystadlaethau 48, 50, 51, 52 a 72.
- 5 Gweler rheol parthed amser yn y Rheolau Cyffredinol.
- 6 Disgwylir i bawb anfon copïau o'u darnau gydag enw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif y gystadleuaeth wedi'u nodi'n glir arnynt, at drefnydd yr Eisteddfod Gylch wrth gofrestru i gystadlu ar-lein. Gall drymwyr yn yr Unawd Offer Taro ddarparu cynllun manwl (ar bapur) sy'n amlinellu prif nodweddion y perfformiad o adran i adran, yn hytrach na darparu copi cerddorol neu sgôr o'r gerddoriaeth. Disgwylir i bob ensemble, band neu gerddorfa ddarparu sgôr gyflawn o'u cerddoriaeth. Y mae sgôr yn cynnwys rhan pob offeryn o dan ei gilydd – nid set o gopïau offerynnau yn unigol.
- 7 Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi, yn anghyfreithlon. Dyma gyfieithiad o ddyfyniad o The Code of fair practice a baratowyd gan y Music Publishers' Association.

'Pan fydd cystadleuydd yn chwarae darn 'hunan-ddewisiad' allan o gyhoeddiad sy'n cynnwys nifer o weithiau, a'r darn hwnnw heb gael ei chyhoeddi ar wahân, gellir paratoi un llungopi ar gyfer defnydd beirniad mewn cystadleuaeth neu ŵyl cyhyd â bod y cystadleuydd eisoes wedi prynu ei gopi ei hun, a bod y llungopi hwnnw yn cael ei gadw gan weinyddwr y gystadleuaeth neu'r ŵyl a'i ddinistrio wedi'r digwyddiad. Nodir yn benodol nad yw'r caniatâd hwn yn berthnasol i ddarnau gosod'.
- 8 Ni chaniateir i'r sawl na all gydymffurfio â'r drefn hon ymddangos yn yr Eisteddfod.
- 9 Ni ddychwelir unrhyw gopi hyd nes bo'r cystadleuydd wedi cwblhau ei d/thaith eisteddfodol h.y. Cylch, Sir/Rhanbarth, Genedlaethol.
- 10 Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei chyhoeddi yn fasnachol.

11 Darpariaeth Drymiau

Cystadlaethau Ensemble a Cherddorfa/Band – Bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer rhagbrofion a llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Er mwyn hwyluso rhediad y gystadleuaeth, ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth.

Unawd Offer Taro – Ni fydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth, ond bydd setiau ar gael ar gyfer Llwyfan Maes, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Gofynnir yn garedig i gystadleuwyr yr Unawd Taro i ddefnyddio'r drymiau a ddarperir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ni fydd yr Urdd yn darparu unrhyw offer taro eraill.

12 Unawdau Llinynnol ac Unawdau Gitâr

Yr offerynnau disgwylidig ar gyfer yr Unawdau Llinynnol yw'r ffid, fiola, soddgrwth a'r bas dwbl; gyda'r Unawdau Gitâr yn cynnwys y gitâr acwstig, trydan a bas, banjo, ukulele, mandolin.

- 13 Disgwylir i bob grŵp fod yn barod i berfformio'n syth ar ôl cyrraedd y llwyfan.

Beirniad

Llinynnol: Sian Wynn

Pres: Owain Arwel Davies

Chwythbrennau: Rhiannon Bill

Telyn: Ceri Wynne Jones ac Eluned Pierce (Bl.6 ac iau)

Piano: Gwawr Owen

Parti Recorder: Rhiannon Bill

Gitâr: Rhisiart Arwel

Drymiau/Taro: Osian Huw Williams

Ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol: Davida Lewis

Cerddoriaeth Greadigol: Davida Lewis

Cyfeilyddion: Rhiannon Pritchard, D. Huw Rees

Band/Artist Unigol

- 73 Band/Artist Unigol Bl.6 ac iau**
- a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig **neu**
- b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.
- 74 Band/Artist Unigol Bl.7-13**
- a. Cân wreiddiol (geiriau a cherddoriaeth) yn y dull cyfoes sydd heb ei chyhoeddi na'i pherfformio'n gyhoeddus. Unrhyw arddull e.e Pop, roc, jazz, hip hop, dawns, acwstig **neu**
- b. Trefniant o gân gyfoes Gymraeg. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau'r hawlfraint.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Band/Artist Unigol

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Er nad yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch, Sir/Rhanbarth, mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn dyddiad cau cofrestru eich Sir/Rhanbarth.
- 3 Disgwylir i bob band/artist unigol anfon copi o'r gân y bwriedir ei pherfformio dros ebost i cyfansoddi@urdd.org erbyn Mawrth 1, 2019. Bydd y beirniad yn dewis pump i ymddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mhob cystadleuaeth.
- 4 Mae'n rhaid i bob cystadleuydd, gan gynnwys y cyfeilyddion, fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
- 5 Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- 6 Ni chaniateir defnyddio traciau cefndir.
- 7 Bydd yr Urdd yn darparu amps a set o ddrymiau. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain. Danfonir ebost at bob band gyda rhestr o'r offer cerddorol sydd ar gael i'w benthyg yn ystod y perfformiad.
- 8 Beirniad: Ani Saunders

Cerdd Dant

- 75 Unawd Cerdd Dant Bl.2 ac iau**
- Chwilio Heb ei Chael Hi, Ceri Wyn Jones**
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn
- Cainc: Bod Erw, Ceinwen Roberts (122)
Ceinciau Bro Delyn, Clwyd Music
- 76 Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4**
- Cadw-Mi-Gei, Tudur Dylan Jones**
Byd Llawn Hud, Gwasg Gomer
- Cainc: Pen Dinas, Elsbeth M Jones (122)
Tannau Teifi, Elsbeth M Jones
- 77 Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6**
- Dychymyg, Lis Jones**
Byw a Bod yn y Bath, Gwasg Carreg Gwalch
- Cainc: Tannau Tawe, Elfair Jones (122)
Alaw Tawe, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

78	Deuawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau	Seren Wib, Myrddin ap Dafydd <i>Armadilo ar fy Mhen, Gwasg Carreg Gwalch</i> Cainc: Rhiannon, Menai Williams (122) <i>Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i>
79	Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (YC) Dim mwy na 12 mewn nifer	Casglu Mwyar, Mererid Hopwood <i>Ar Hyd y Flwyddyn, Gwasg Gomer</i> Cainc: Dyffryn Cân, Elfair Jones (1122) <i>Ceinciau'r Allwedd 1, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i>
80	Parti Cerdd Dant (Unsain) Bl.6 ac iau (D) Dim mwy na 12 mewn nifer	Noson Calan Gaeaf, Dorothy Jones <i>Ych! Maen Nhw'n Neis, Gwasg Carreg Gwalch</i> Cainc: Stelc II, Bethan Bryn (122) <i>Stelcian, Cyhoeddiadau Curiad</i> Gweler rheolau cystadlu'r dysgwyr ar dudalen 9
81	Côr Cerdd Dant Bl.6 ac iau (YC/Ad) Dim mwy na 30 mewn nifer	Un Blaned Gron, Robin Llwyd ab Owain <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Cainc: Manhyfryd, Gwennant Pyrs (1122) <i>Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill, Cyhoeddiadau Curiad</i>
82	Parti Cerdd Dant Bl.6 ac iau (Unsain) (Ad) Dim mwy na 12 mewn nifer	Eira, Elenid Alun <i>Allwedd y Tannau 73 (2014), Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i> Cainc: Siwan, Mona Meirion (122) <i>Tant i'r Plant, Gwasg Gwynedd</i>
83	Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9	Lluniau'r Tymhorau, Eifion Lloyd Jones <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Cainc: Siliwen, Gwennant Pyrs (122) <i>Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill, Cyhoeddiadau Curiad</i>
84	Deuawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9	Hen Luniau'r Teulu, John Gwilym Jones <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Cainc: Coetmor, Menai Williams (1122) <i>Ceinciau'r Dyffryn a Mwy, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i>
85	Unawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed	Y Gymru Newydd, Robin Llwyd ab Owain <i>Poeth! Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i> Cainc: Mared, Gwennant Pyrs (122) <i>Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill, Cyhoeddiadau Curiad</i> Dylid cyplysu P1 a 2, P3 a 4, P5 a 6 a hepgor y pennill olaf.
86	Deuawd Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed	Fesul Gair, Aneirin Karadog <i>Bylchau, Barddas</i> Cainc: Maen y Wern, Owain Siôn (1122) <i>Ceinciau Penyberth, Urdd Gobaith Cymru</i>

87	Grŵp Cerdd Dant Bl.10 a dan 19 oed 3-8 mewn nifer	Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd, Emyr Lewis <i>Cerddi Caerdydd, Gwasg Gomer</i> Cainc: Rhandir, Mair Carrington Roberts (122) <i>Ceinciau'r Ffin, Cyhoeddiadau Curiad</i> Caniateir dyblu lleisiau. Trillais neu fwy.
88	Grŵp Cerdd Dant 19-25 oed 3-8 mewn nifer	Pe Bawn i yn Artist, T. Rowland Hughes <i>Cerddi'r Cof, Gwasg y Dref Wen</i> Cainc: Penrhyn Llŷn, Gwenan Gibbard (123) <i>Allwedd y Tannau rhif 70 (2011) a 77 (2018), Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i> Caniateir dyblu lleisiau. Trillais neu fwy.
89	Unawd Cerdd Dant 19-25 oed	Y Ferch Wrth y Bar yng Nghlwb Ifor, Rhys Iorwerth <i>Un Stribedyn Bach, Gwasg Carreg Gwalch</i> Cainc: Traeth Lafan, Gareth Mitford Williams (112) <i>Ceinciau'r Allwedd - Y Gyfrol Gyntaf, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i> Dylid cyplysu P1 a 2, P3 a 4, P5 a 6.
90	Deuawd Cerdd Dant 19-25 oed	Chwilio, Haf Llewelyn <i>Llond Drôr o Ddinosoriaid, Barddas</i> Cainc: Llanerchfyda, Gwenan Roberts (122) <i>Tonnau'r Tannau, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i> Dylid cyplysu P1 a 2, P3 a 4, a P5 a 6.
91	Parti Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9 Dim mwy na 20 mewn nifer	Y Sbectol Hud, Mererid Hopwood <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Cainc: Maesgwyn, Mona Meirion (1122) <i>Dyffryn Conwy a Cheinciau Eraill, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i>
92	Parti Cerdd Dant Bl.9 ac iau (Ad) Dim mwy na 20 mewn nifer	Detholiad Penodol o Cymru 30-3 Lloegr, Myrddin ap Dafydd <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Cainc: Sosban Fach, Mair Selway (1212) <i>Ceinciau 99, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru</i>
93	Côr Cerdd Dant Bl.13 ac iau Dim mwy na 30 mewn nifer	Beth Wna'r Heniaith, Aled Lloyd Davies <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Cainc: Erwenni, Einir Wyn Jones (112) <i>Ceinciau Penberth, Urdd Gobaith Cymru</i>
94	Parti Cerdd Dant 14-25 oed (Ae) Dim mwy na 20 mewn nifer	Oni Ddown I'r Waun Ddyfal, Emyr Lewis <i>Cerddi Caerdydd, Gwasg Gomer</i> Cainc: Trefynach, Owain Siôn (122) <i>Ceinciau Llwyndyrus, Cyhoeddiadau Sain</i>

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cerdd Dant

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Dilynwch drefniant pob cainc a nodir yn y Rhestr Testunau. Gellir ychwanegu triniaeth offerynnol â/neu leisiol at y gainc, ond ni chaniateir i unrhyw offeryn heblaw'r delyn/telynau swyddogol chwarae'r trefniant llawn.
- 3 Rhaid i holl gystadleuwyr yr adran Cerdd Dant dderbyn gwasanaeth telynorion swyddogol yr Eisteddfodau Cylch, Sir/Rhanbarth a'r Genedlaethol, yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan (gweler eithriad yng nghystadlaethau rhif 81, 91, 92, 93 a 94 rheol 4). Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau gwasanaeth telynor i'r Eisteddfodau hyn, ond pe cyfyd anhawster fe ganiateir defnyddio piano. Rhaid sicrhau y bydd pob cystadleuydd yn perfformio dan yr un amodau ym mhob achos. h.y. un cyfeilydd swyddogol ar gyfer y cystadleuaeth fel y nodwyd uchod.
- 4 Yng nghystadlaethau 81, 91, 92, 93 a 94, rhaid defnyddio dwy delyn yn y rhagbrofion ac ar y llwyfan. Gall yr ail delyn naill ai fod o ddewis y cystadleuydd a than 30 oed neu'r ail delynor swyddogol sydd â'i enw gyferbyn â'r gystadleuaeth.
- 5 Ystyrir y defnydd o delynor ychwanegol at y ddwy delyn fel rhan o ensemble a rhaid iddynt, fel unrhyw offerynnwr arall a ddefnyddir fod o dan 30 oed. Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sy'n canu.
- 6 Os dymunir newid cyweirnod gwreiddiol y gainc, dylid cyfyngu'r newid i dôn a hanner o'r naill ochr i'r cyweirnod gwreiddiol.
- 7 Dylai'r datgeinydd a'r telynor sefydlu'r amseriad cyn dechrau canu.
- 8 Ni chaniateir cynorthwyo cystadleuydd mewn unrhyw fodd o'r llwyfan nac o'r gynulleidfa.
- 9 Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- 10 Caniateir i 3 pharti gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhif 94.
- 11 Mae canllawiau gosod ar gyfer cystadlaethau'r adran hon ar gael ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru.
- 12 Penderfynwyd peidio nodi deulais/deusain, ond yn hytrach Parti/Côr yn unig (ar wahân i pan nodir Parti Unsain). Golyga hyn fod rhyddid i'r gosodwyr/hyfforddwyr ddefnyddio cyfuniad o unsain, deulais, trillais ayyb fel y mynnant yn ôl eu gweledigaeth.

Beirniaid: Alwena Roberts, Steffan Rhys Hughes, Gwenan Gibbard, Owain Siôn, Ann E Fox, Llio Penri

Telynorion: Kim Lloyd Jones, Dylan Cernyw, Dafydd Huw, Elain Wyn, Nia Keinor Jenkins, Bethan Roberts

CogUrdd

95 **CogUrdd Bl.4, 5 a 6**

96 **CogUrdd Bl.7, 8 a 9**

97 **CogUrdd Bl.10 a dan 19 oed**

98 **CogUrdd 19-25 oed**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau CogUrdd

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid cofrestru i gystadlu cyn dyddiad cau eich Sir/Rhanbarth. Mae rhestr o'r dyddiadau ar wefan yr Urdd: urdd.cymru/eisteddfod
- 3 Rhaid cynnal rownd gyntaf CogUrdd yn annibynnol o fewn eich ysgol/adran/coleg. Cyfrifoldeb yr ysgol/adran/coleg yw'r holl drefniadau gan gynnwys dewis beirniaid a dilyn rheolau lechyd a Diogelwch y safle. Ceir canllawiau pellach, gan gynnwys ryseitiau ar y wefan: urdd.cymru/eisteddfod
- 4 Mae'r Urdd wedi paratoi Pecyn Beirniaid gyda chanllawiau a ffurflen farcio i'ch cynorthwyo gyda threfnu'r rownd gyntaf. Os hoffech dderbyn copi, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol.
- 5 Bydd eich Swyddog Datblygu lleol yn trefnu'r rownd Sir/Rhanbarth, a bydd y dyddiadau ar ein gwefan.

Beirniad: Beca Lyne-Pirkis

Dawnsio Gwerin

99	Dawns Werin Bl.4 ac iau	Rasus Conwy <i>Dawnsiau Traddodiadol, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
100	Dawns Werin Bl.6 ac iau Ysgolion â hyd at 100 o blant rhwng 4–11 oed	Y Rhaglyn <i>Dawnsiau Thomas Jones, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
101	Dawns Werin Bl.6 ac iau Ysgolion â thros 100 o blant rhwng 4–11 oed ac Adrannau	Rhyd y Meirch, Gwyn Williams, Bangor <i>Taflen Unigol / Pamffled, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
102	Dawns Stepio Grŵp Bl.6 ac iau Cyflwyniad gan 2 neu fwy o ddawnsyr cymysg	Hunan ddewisiad Dim hwy na 3 munud Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws (gweler rheol dawns gwerin 4). Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/ beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
103	Dawns Werin Bl.7, 8 a 9	Ceillog y Rhedyn <i>Dawnsiau Ffair Nantgarw, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
104	Dawns Werin Bl.10 a dan 19 oed	Abaty Llantony (Ffigur Dwbl) <i>Hen a Newydd, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i>
105	Dawns Werin Bl.9 a dan 25 oed (Ae/UAd)	Rali Twm Sion <i>Dawnsiau Ffair Nantgarw, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i> neu Ffair y Bala, Mavis Williams Roberts <i>Dawnsiau yr Ugeinfed Ganrif, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru</i> Rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod o dan 25 oed, a phawb o dan 30 oed.
106	Dawns Werin Unigol i Ferched Bl.9 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws (gweler rheol dawns gwerin 4). Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/ beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
107	Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl.9 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws (gweler rheol dawns gwerin 4). Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/ beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
108	Dawns Werin Unigol i Ferched Bl.10 ac o dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 4 munud Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws (gweler rheol dawns gwerin 4). Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/ beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.

109	Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl.10 a dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 4 munud Dawns gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws (gweler rheol dawns gwerin 4). Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
110	Dawns Stepio Grŵp dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 4 munud Dawns ar gyfer 6 person neu lai gan ddefnyddio arddull, camau, patrymau a gwisgoedd traddodiadol Gymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu'n draddodiadol eu naws (gweler rheol dawns gwerin 4). Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad.
111	Dawns Stepio Bl.7 a dan 25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud Cyflwyniad o ddawns traddodiadol a/neu gyfoes gan grŵp o ddawnsywyr cymysg heb fod yn llai na 6 pherson mewn nifer yn defnyddio arddull, camau a phatrymau Cymreig. Caniateir diwyg gyfoes o ran gwisg a cherddoriaeth. Dylid cyflwyno rhestr o'r alawon a ddefnyddir i'r beirniad/beirniad ar gychwyn y gystadleuaeth gan nodi eu hamseriad. Rhaid i'r mwyafrif o aelodau fod o dan 25 oed a phawb o dan 30 oed.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawnsio Gwerin

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf hyd at y diweddsglo amlwg.
- Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth.
- Yn ychwanegol at y brif alaw, caniateir defnyddio unrhyw alawon traddodiadol Cymreig neu wreiddiol draddodiadol eu naws (oni nodir yn wahanol) a fyddo'n addas fel cyfeiliant. Dylid cychwyn a gorffen gyda'r alaw wreiddiol, oni nodir yn wahanol.
- Os na nodir rhif penodol o ddawnsywyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.
- Disgwylir i bartïon ac unigolion wneud pob ymdrech i sicrhau cyfeiliant byw i'w dawns, ond caniateir defnyddio cerddoriaeth wedi'i recordio ymlaen llaw lle bo hynny'n amhosibl. Os bydd cydraddoldeb yn y dawnsio, yna fe ystyrir natur y cyfeiliant. Caniateir newid y cyweirnod. Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- Caniateir i bartïon ddefnyddio hyd at dri chyfeilydd dros 25 oed ymhlith y cyfeilyddion.
- Disgwylir i'r gwisgoedd, gan gynnwys esgidiau, ychwanegu at awyrgylch a chyfanrwydd y cyflwyniad.
- Wrth ffurfio partïon dawnsio gwerin, dylid glynu at gyfarwyddiadau'r ddawns o ran cyfansoddiad y parti.
- Caniateir i dri pharti neu grŵp gynrychioli'r Sir/Rhanbarth yng nghystadlaethau rhifau 105 a 111.

Beirniad: John Idris Jones, Anna Pardanjac, Dilys Lewis, Alaw Griffiths, Cliff Jones, Eirlys Britten

Dawns

112	Dawns Greadigol Bl.6 ac iau (YC/Ad) Dim llai na 4 mewn nifer	Castell/Cestyll Dim hwy na 4 munud
113	Dawns Aml-Gyfrwng Bl.6 ac iau Dim llai na 4 mewn nifer	Darganfod Y Bae Dim hwy na 4 munud Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol.
114	Grŵp Dawns Creadigol Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Difrifol a Chymedrol) Dim mwy na 30 mewn nifer	Môr Dim hwy na 4 munud
115	Dawns Greadigol o dan 19 oed Dim llai na 4 mewn nifer	Gofod Dim hwy na 4 munud
116	Dawns Aml-Gyfrwng Bl.7 a dan 19 oed Dim llai na 4 mewn nifer	Y Ddinas Dim hwy na 4 munud Dehongliad creadigol o thema drwy arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull gyferbyniol.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawns

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
- 3 Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- 4 Dawnsyr i wisgo dillad syml, addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
- 5 Arwynebedd perfformio llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw tua 10 x 8 medr.
- 6 Creadigol
Ni chaniateir defnyddio offer llwyfan na goleuadau arbennig, colur, ategolion gwisg/corff nac unrhyw gyfarpar arall - ac eithrio yn y gystadleuaeth Grŵp Dawns Creadigol i Ysgolion/Unedau ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim mwy na 100 gair, yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.
- 7 Dawns Aml-Gyfrwng
Dehongliad creadigol o thema drwy gyfrwng arddulliau cyferbyniol. Rhaid perfformio o leiaf dwy arddull

gyferbyniol. Ceir defnyddio gwisgoedd addas a mân bropiâu er mwyn dehongli'r thema. Disgwylir i'r cystadleuwyr roi crynodeb byr, dim mwy na 100 gair, yn egluro cynnwys y ddawns yn y Gymraeg ar gyfer y beirniad a'r gynulleidfa. Ni fydd y crynodeb yn cael ei amseru. Bydd yr amseru yn cychwyn o'r symudiad cyntaf.

- 8 Ni chaniateir cystadlu mewn mwy nag un gystadleuaeth gyda'r un ddawns.

- 9 Mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant y mae'r dawnsyr yn ei dderbyn yn ystyried agweddau a rheolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.

Beirniad: Jên Angharad, Cêt Haf

Dawnsio Creadigol Anghenion Dysgu Ychwanegol: Rosie Hazell

Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo

117	Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.6 ac iau	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 2 funud Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg
118	Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.6 ac iau Dim llai na 4 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg
119	Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.7, 8 a 9	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 2 funud Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg
120	Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.7, 8 a 9 Dim llai na 4 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg
121	Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Unigol Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 2 funud Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg
122	Grŵp Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo (neu gyfuniad) Bl.10 a dan 19 oed Dim llai na 4 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 3 munud Cerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Dawnsio Hip Hop/Stryd/Disgo

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Amserir y perfformiad o'r symudiad cyntaf.
- Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg. Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- Dawnsiwr i wisgo dillad syml/addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
- Rhaid i bob symudiad fod o fewn cyd-destun yr arddull dawns ac i'r coreograffi ganolbwyntio ar y stepiau dawns.
- Darperir chwaraewr cryno ddisgiau.
- Mae'n hanfodol fod yr hyfforddiant y mae'r dawnswyr yn ei dderbyn yn ystyried agweddau a rheolau iechyd a diogelwch. Rhaid sicrhau bod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.

Beirniaid Hip Hop/Stryd/Disgo: Holly Parker,
Hanna Hughes, Lowri Angharad Briddon, Elan Isaac

Llefaru

123	Llefaru Unigol Bl.2 ac iau	Pysgota Sêr, Anni Llŷn <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i>
124	Llefaru Unigol Bl.3 a 4	Y Gornel Dywyll, Tudur Dylan Jones <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i>
125	Llefaru Unigol Bl.5 a 6	Dewis Timau, Ceri Wyn Jones <i>Geiriau Bach Chwareus, Gwasg Carreg Gwalch</i>
126	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau 6-12 mewn nifer	Parti Llefaru Gorau'r Byd, Anni Llŷn <i>Dim Ond Traed Brain, Gwasg Gomer</i>
127	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (Ad) 6-12 mewn nifer	Tywydd Carafanio, Lis Jones <i>Hen Wragedd a Ffyn ac Eira Gwyn, Gwasg Carreg Gwalch</i>
128	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9	Dychwelyd i Gilmeri, Aled Lewis Evans <i>Llinynnau, Barddas</i>
129	Grŵp Llefaru Bl.9 ac iau (Ad) 6-16 mewn nifer	Dwy Ochr y Stryd, Grahame Davies a chriw prosiect Shelter, Ysgol Dyffryn Teifi <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i>
130	Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9 6-16 mewn nifer	Twf, Cyril Jones <i>Byw Brwydr, Barddas</i> Golygwyd gan Hywel Griffiths
131	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed	Gwyrddni, Grahame Davies <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i>
132	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed 6-16 mewn nifer	Gwenllian, Peredur Lynch <i>Caeth a Rhydd, Gwasg Carreg Gwalch</i> Dylid hebgor pennill 2.
133	Llefaru Unigol 19-25 oed	Gwyn Thomas, Manon Steffan Ros <i>Golygon, Y Lolfa</i>
134	Grŵp Llefaru dan 25 oed (Ae) 6-16 mewn nifer	Y Rwtin, Rhys Iorwerth <i>Byw Brwydr, Barddas</i> Golygwyd gan Hywel Griffiths
135	Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)	Dw i'n Hoffi, Mair Elwyn <i>Sgram! Cerddi Blasus, Atebol</i>
136	Llefaru Unigol Bl.3 a 4 (D)	Bwyd, Mair Elwyn <i>Sgram! Cerddi Blasus, Atebol</i>
137	Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D)	Antur, Tudur Dylan Jones <i>Geiriau Bach Chwareus, Gwasg Carreg Gwalch</i>

138	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (D) 6–12 mewn nifer	Rap Rheolau, Aled Richards <i>Sgram! Cerddi Blasus, Atebol</i>
139	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 (D)	Lliwiau, Ifan Gwilym <i>Poeth! Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i>
140	Cyflwyniad Llefaru Bl.7, 8 a 9 (D) 6–12 mewn nifer	Y Planedau, Mererid Hopwood <i>Lluniau yn fy Mhen, Gwasg Gomer</i>
141	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed (D)	Pres y Palmant, Robat Powell <i>Poeth! Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i>
142	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed (D) 6–12 mewn nifer	Cilmeri, Gerallt Lloyd Owen <i>Cerddi'r Cywilydd, Gwasg Gwynedd</i>

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llefaru

- Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi/darnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr e.e. gellir defnyddio symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.
- Caniateir defnyddio cerddoriaeth wrth arbrofi ond ni ddylid ychwanegu geiriau. Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- Ni fydd yr Eisteddfodau yn darparu unrhyw offeryn cerdd.
- Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.
- Caniateir i dri grŵp neu gôr gynrychioli Sir/Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhif 134.
- Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau hwn. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
- Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag, maint tua 10 x 8 medr. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Yn yr un modd, ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan wedi i'r cwmni gilio ar ddiwedd y perfformiad.

Beirniaid

Linda'r Hafod, Deiniol Tudur, Eleri Richards, Siân Teifi, Medwen Parri

Beirniaid Dysgwyr

Llinos Mary Jones, Elen Gwenllian

Siarad Cyhoeddus

143 **Tîm Siarad Cyhoeddus Bl.10 a dan 19 oed (YU)**

144 **Tîm Siarad Cyhoeddus 14-25 oed (Ae)**

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid cofrestru timau Siarad Cyhoeddus erbyn Mawrth 1 ar y wefan: urdd.cymru/eisteddfod
- 3 Bydd Adran yr Eisteddfod yn trefnu taith y beirniad yn ôl dyddiadau sy'n gyfleus iddo/iddi a'r cystadleuwyr. Yr egwyddor gyffredinol fydd anfon y beirniaid i ganolfannau lle y gall feirniadu amryw o dimau ar un noson mewn prawf Sirol/Rhanbarthol yn ystod mis Mawrth, yn hytrach na'u hanfon yn unswydd i weld pob tîm. Ni ellir addasu'r dyddiadau a osodir.
- 4 Wedi traddodi beirniadaeth lafar i bob tîm ar ôl eu perfformiad yn y prawf Sirol/Rhanbarthol, ni pharatoir beirniadaeth ysgrifenedig wedyn. Anfonir nodiadau bras at y timau a ddewisir i'r profion terfynol.
- 5 Wedi gweld yr holl dimau, bydd y beirniad yn dewis y timau gorau o blith y timau Ysgolion Uwchradd, a'r gorau o blith y timau Aelwydydd. Bydd y timau hyn yn ymddangos yn y profion terfynol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Hysbysir pob tîm, llwyddiannus ac aflwyddiannus, tua chanol Ebrill.
- 6 Rhaid i'r timau a ddewisir i'r profion terfynol gystadlu ar y dyddiad ac yn y drefn a benderfynir gan Drefnydd yr Eisteddfod.
- 7 Sylwer mai tîm Ysgol a thîm Aelwyd sydd i gystadlu. Yr Ysgol/Aelwyd yw'r uned, ac ni chaniateir benthycu perfformwyr o Ysgolion/Aelwydydd eraill. Caniateir 4 aelod mewn tîm.

Beirniad: Hywel Wyn Edwards

Theatr

145	Ymgom Bl.6 ac iau 2-4 mewn nifer	Detholiad penodol o 'Ffrindiau', Gareth F Williams neu Ddetholiad dewisol o'r nofel <i>Copi o'r detholiad penodol ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
146	Cyflwyniad Dramatig Bl.6 ac iau	Bai ar Gam Dim hwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
147	Cân Actol Bl.6 ac iau (YC/Ad) Ysgolion â hyd at 100 o blant rhwng 4-11 oed	Dathlu Dim hwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
148	Cân Actol Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â thros 100 o blant rhwng 4-11 oed 8-30 mewn nifer	Darganfod Dim hwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
149	Ymgom Bl.7, 8 a 9 2-4 mewn nifer	Detholiad penodol o 'Y Gwylliaid', Bethan Gwanas neu Ddetholiad dewisol o'r nofel <i>Copi o'r detholiad penodol ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
150	Cyflwyniad Dramatig Bl.7, 8 a 9 Hyd at 30 mewn nifer	Cyflwyniad yn seiliedig ar y thema 'Ysbeidiau Heulog' Dim hwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
151	Ymgom Bl.10 a dan 19 oed 2-4 mewn nifer	Hunan ddewisiad Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan

152	Cyflwyniad Dramatig Bl.10 a dan 19 oed Hyd at 30 mewn nifer	Cyflwyniad yn seiliedig ar y thema ‘Tacsi i’r Tywyllwch’ Dim hwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan
153	Cân Actol Bl.7, 8 a 9 8–30 mewn nifer	Mae rhywbeth bach yn poeni pawb o hyd Dim hwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan Caniateir band byw neu gyfeiliant wedi ei recordio
154	Detholiad o Ddrama Gerdd Bl.7 a dan 25 oed Dim llai na 10 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 15 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan Nid oes rhaid cyfleu stori yn gyflawn. Caniateir band byw neu gyfeiliant wedi ei recordio. Cyfrifoldeb y cwmni / grŵp yw sicrhau hawlfraint.
155	Stand Yp 14–25 oed	Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol Dim hwy na 4 munud
156	Monolog Bl.10 a dan 19 oed	Cyflwyno monolog Dim hwy na 4 munud
157	Cyflwyniad Dramatig Unigol 19-25 oed	Cyflwyno 2 fonolog cyferbyniol Dim hwy na 8 munud
158	Unawd allan o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun (gall hyn gynnwys trac cefndirol ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir).
159	Unawd allan o Sioe Gerdd 19-25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun (gall hyn gynnwys trac cefndirol ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir).
160	Deuawd / Ensemble Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed 2–6 mewn nifer	Cân neu olygfa allan o Sioe Gerdd Dim hwy na 5 munud
161	Ymgom Bl.6 ac iau (D) 2–4 mewn nifer	Sgript osod gan Lisa Jane Davies a Mari Tudor <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Dim hwy na 5 munud
162	Cân Actol Bl.6 ac iau (D) 8–30 mewn nifer	Cân actol yn seiliedig ar y thema ‘Mae’r Olwyn yn Troi’ Dim hwy na 5 munud
163	Ymgom Bl.7, 8 a 9 (D) 2–4 mewn nifer	Sgript osod gan Gwynedd H. Jones <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn</i> Dim hwy na 5 munud

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Theatr

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag, maint tua 10 x 8 metr. Ni chaniateir gosod offer cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Yn yr un modd, ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad.
- 3 Amserir y perfformiad o'r sain neu'r ystum cyntaf. Bydd y perfformiad, o safbwynt beirniad, yn parhau nes bo'r cwmni wedi gadael y llwyfan.
- 4 Prop a Set - Diffinnir prop a set fel eitem neu offer gall un cystadleuydd ei gario i/ag o'r llwyfan.
- 5 Nid oes rhaid gadael a dychwelyd er mwyn newid cymeriad rhai o'r perfformwyr - gellir gwneud hynny heb iddynt adael y llwyfan. Dylai gadael y llwyfan a dychwelyd drachefn fod yn ddigwyddiad eithriadol.
- 6 Bydd 5 meicroffon ar lwyfan y Genedlaethol a bydd posib defnyddio hyd at 4 meicroffon radio. Dylid cysylltu â rheolwr y llwyfan ar unwaith wedi'r rhagbrawf ac mewn da bryd cyn bod y gystadleuaeth ar y llwyfan, i nodi'r union anghenion.
- 7 Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd berfformio unrhyw ddarn y maent wedi'i b/berfformio eisoes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros y tair blynedd diwethaf.
- 8 Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant yn unig. Nid oes rhaid i'r cyfeilyddion fod o fewn oedran y gystadleuaeth.
- 9 Lle fo'n bosib, anogir cwmni, grŵp neu barti i ddefnyddio cerddoriaeth wreiddiol. Cyfrifoldeb y cwmni/grŵp/parti yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol.
- 10 Cyfrifoldeb y cystadleuydd ydyw i sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad o fewn y perfformiad, nad ydyw wedi ei gynnwys yn y Rhestr Testunau. Rhaid i'r fath ganiatâd alluogi i'r Urdd, S4C ac/neu unrhyw drydydd parti wneud y perfformiad ar gael yn ddigwyfyngiad, yn fyd-eang, yn ddi-freindal drwy bob cyfrwng neu ddull dosbarthu (sy'n bodoli nawr neu a ddatblygir yn y dyfodol).
- 11 Ymgom
Cyflwyniad gan 2-4 mewn nifer, o sgript osodedig neu sgript hunan ddewisiad yn ddibynol ar y gystadleuaeth o dan sylw. Bydd amseriad y sgript osodedig yn 5 munud o hyd a dylid sicrhau bod y sgript hunan ddewisiad yn ddim hwy na 5 munud. Mae hawl gan yr hyfforddwyr i ddefnyddio dwy acen gyferbyniol. Caniateir newid rhyw'r cymeriadau os yw hynny yn gwneud synnwyr ac yn gydnaws â'r sgript. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml.
- 12 Cân Actol
Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar ganu ac actio. Dylai'r gerddoriaeth lifo drwy'r perfformiad cyfan. Gall y geiriau a'r alawon fod yn wreiddiol, wedi eu cyhoeddi neu'n gyfuniad o'r ddau. Rhaid sicrhau hawlfraint os am ddefnyddio cerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml.
- 13 Cyflwyniad Dramatig
Perfformiad o sgript ar thema osodedig gan grŵp. Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar yr elfen

ddramatig. Caniateir defnyddio gwaith megis darnau o ddramâu yn ogystal â gwaith gwreiddiol. Caniateir y defnydd o gerddoriaeth cefndirol yn unig i ychwanegu at yr awyrgylch yn unig ond dylid pwysleisio nad hon yw'r elfen bwysicaf o'r gystadleuaeth. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml.

14 Monolog a Chyflwyniadau Theatrïg Unigol

Cyflwyniad(au) o ddrama, darn o ryddiaith sydd wedi ei(u) chyhoeddi neu waith gwreiddiol addas. Caniateir propiau syml ar gyfer y perfformiad.

15 Unawd allan o Sioe Gerdd

Cyfrifoldeb yr unawdydd yw sicrhau hawlfraint perfformio gan y cwmni cyhoeddi perthnasol. Disgwylir i'r sawl sy'n cystadlu i yrru tystiolaeth o'r hawlfraint/caniatâd at eu swyddog datblygu lleol erbyn Mawrth 1, 2019.

16 Deuawd/Ensemble Sioe Gerdd

Perfformiad hyd at 5 munud gan 2 neu hyd at 6 aelod o gân neu olygfa allan o Sioe Gerdd. Rhaid i bob aelod gynrychioli cymeriad unigol yn ystod y cyflwyniad. Oherwydd rhesymau hawlfraint ni chaniateir unrhyw wisgoedd a phropiau sydd yn efelychu cynrychiadau llwyfan. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeiliant ei hun. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi ei recordio ymlaen llaw, ond cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint. Disgwylir i'r cystadleuwyr yrru tystiolaeth o'r hawlfraint/caniatâd at eu swyddog datblygu lleol erbyn Mawrth 1, 2019.

Nid yw'r cystadlaethau isod yn ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfodau Cylch, Sir/Rhanbarth ond rhaid cofrestru i gystadlu cyn dyddiad cau y Sir/Rhanbarth.

17 Stand-yp

Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud. Cynhelir y gystadleuaeth ar Lwyfan Y Maes, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar y prynhawn Sadwrn olaf. Nid oes rhaid paratoi sgript o flaen llaw ond rhaid i'r cynnwys fod yn weddus.

18 Detholiad o Ddrama Gerdd

Nid oes rhaid cyflwyno'r stori yn gyflawn a gellir canu rhannau o ganeuon ond dylid ceisio sicrhau bod y cyflwyniad yn rhedeg i greu cyfanwaith. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi ei recordio ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint perfformio, a disgwylir i'r grŵp yrru tystiolaeth o'r hawlfraint/caniatâd at eu swyddog datblygu lleol erbyn Mawrth 1, 2019.

Beirniad

Ymgom: Gwawr Pritchard, Ffion Dafis
Cyflwyniadau Dramatig: Peter Davies, Aled Pedrick
Cân Actol: Ken Hughes, Siwan Llynor (Cynradd), Nia Efans (Uwchradd)
Detholiad o Ddrama Gerdd: Elin Llwyd, Rhidian Marc
Stand Yp: Hywel Pitts
Monolog / Cyflwyniad Theatrïg: Lee Haven Jones, Tom Rhys Harries
Unawd allan o Sioe Gerdd: Luke McCall, Steffan Rhys Williams
Deuawd allan o Sioe Gerdd: Miriam Isaac, Steffan Rhys Williams

Trin Gwallt a Harddwch

164	Lefel 1 / Mynediad Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed	Gwledydd y Byd
165	Lefel 1 / Mynediad Harddwch Bl.10 a dan 25 oed	Gwledydd y Byd
166	Lefel 2 Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed	Gwledydd y Byd
167	Lefel 2 Harddwch Bl.10 a dan 25 oed	Gwledydd y Byd
168	Lefel 3 Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed	Gwledydd y Byd
169	Lefel 3 Harddwch Bl.10 a dan 25 oed	Gwledydd y Byd

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Trin Gwallt a Harddwch

Trefn y gystadleuaeth

- 1 Rhaid cofrestru i gystadlu ar-lein cyn Ebrill 26, 2019.
- 2 Trefnir rownd Sirol/Ranbarthol cyn diwedd mis Ebrill 2019 os oes angen.
- 3 Cynhelir y rownd derfynol ar ddydd Gwener Eisteddfod yr Urdd mewn lleoliad ar y Maes.

Rheolau Cystadlu

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw darparu offer a model eu hunain er mwyn cwblhau'r dasg ymhob rownd.
- 3 Darperir un soced drydanol ar gyfer bob cystadleuydd ymhob rownd.
- 4 Darperir bwrdd a chadair ar gyfer pob cystadleuydd ymhob rownd.
- 5 Lefel Mynediad/1, 2 a 3 = hyd at 120 munud i gwblhau'r dasg.

Trin Gwallt

Lefel 1 / Mynediad, Lefel 2 a Lefel 3

Creu delwedd gyflawn yn seiliedig ar y thema. Bydd gan bob cystadleuydd 120 munud i gwblhau'r dasg sydd yn cynnwys 15 munud i ymgyswrtio â'r gofod cystadlu. Caiff y gwaith coluro, gwisg ac ategolion ei gwblhau o flaen llaw gan y cystadleuydd yn unig. Mae rhwydd hynt i'r cystadleuydd ddewis ei g/chyfarpar a'i g/chynnwys ei hun ar gyfer y dasg. Caniateir i'r cystadleuydd baratoi hyd at 30% o'r gwallt / ategolion gwallt o flaen llaw.

Harddwch

Lefel 1 / Mynediad, Lefel 2 a Lefel 3

Celf ewinedd a cholur yn seiliedig ar y thema. Caniateir 120 munud i gwblhau'r dasg sy'n cynnwys gosod a chlirio. Bydd angen canolbwyntio ar yr olwg derfynol ond bydd y beirniaid yn ystyried y gwallt a'r wisg. Caniateir i'r cystadleuydd baratoi'r wisg a'r gwallt o flaen llaw yn unig.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

Adeiladwaith.....	43	Creu Gwefan.....	58
Adolygu Ffilm.....	43	Creu Ffilm.....	59
Gwaith Lluniadu 2D.....	44	Cynnwys Digidol.....	59
Gwaith Creadigol 2D.....	44	Gofal Plant.....	60
Dyluniad 2D.....	45	Prosiect Gwyddonol.....	60
Graffeg Cyfrifiadurol.....	46	Llenyddiaeth: Barddoniaeth.....	61
Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol.....	46	Llenyddiaeth: Rhyddiaith.....	62
Ffotograffiaeth.....	46	Dysgwyr: Medal Bobi Jones.....	64
Print Monocrom.....	46	Dysgwyr: Tlws y Dysgwyr.....	65
Print Lliw.....	47	Dysgwyr: Gwaith Llafar Wedi'i Recordio.....	65
Cyfres o Brintiau Monocrom.....	47	Cyst. Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd.....	66
Cyfres o Brintiau Lliw.....	47	Ysgoloriaeth Geraint George.....	66
Argraffu.....	47	Meithrin Talent - Talent Meithrin.....	67
Argraffu/Addurno ar Ffabrig.....	48	Newyddiaduraeth.....	67
Gwaith Creadigol 2D Tecstilau.....	48	Cyfansoddi: Drama.....	68
Gwaith Creadigol 3D Tecstilau.....	49		
Gwehyddu.....	49		
Penwisg Creadigol a Ffasiwn.....	49		
Pypedau.....	50		
Pypedau (Grŵp).....	50		
Gwaith Creadigol 3D.....	50		
Creu Arteffact.....	51		
Cerameg/Crochenwaith 3D.....	52		
Gemwaith.....	53		
CAD.....	53		
CAM.....	53		
Dylunio a Thechnoleg.....	54		
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg.....	54		
Ysgoloriaeth Gelf, Dylunio a Thechnoleg.....	55		
Cyfansoddi Cerddoriaeth.....	56		
Cyfansoddi Cerdd Dant.....	57		
Cyfieithu.....	57		
Creu Ap.....	58		

Clic!

Gallwch glicio ar unrhyw
un o'r adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Rheolau Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae holl gynnyrch cystadlaethau llenyddol a chyfansoddi Eisteddfod yr Urdd yn cael eu beirniadu ar lefel genedlaethol, ar wahân i gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg.
- 3 Oni nodir yn wahanol, gwaith ar gyfer unigolion yw'r cystadlaethau.
- 4 Rhaid i holl gynnyrch yr adran hon, ar wahân i gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg gyrraedd Swyddfa'r Urdd, Glan-llyn erbyn Mawrth 1, 2019.
- 5 Yn achos y Prif Gystadlaethau, dylid cynnwys dau gopi o'r gwaith, cyfeiriad cartref ebost a rhif ffôn.
- 6 Rhaid i aelodau o Adran/Aelwyd anfon eu cynnyrch gyda'i gilydd trwy eu hysgrifennydd. Dylid labelu'r parsel neu'r pecyn 'Llenyddiaeth' fel y bo'n briodol.
- 7 Rydym yn argymhell cofrestru cynnyrch a anfonir trwy'r post. Ni fydd yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a all ddigwydd i'r cynhyrchion.
- 8 Bydd gan yr Urdd hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r cyfansoddiadau cerddorol a llenyddol a ddyfernir yn fuddugol a'u defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol, a hynny heb geisio caniatâd yr awduron na thalu unrhyw freindal na thaliad arall.
- 9 Caniateir ennill y Gadair, y Goron, y Fedal Ddrama, Medal y Dysgwr, Y Fedal Gyfansoddi hyd at deirgwaith.
- 10 Rhaid i'r gwaith a gyflwynir fod yn waith gwreiddiol yr awdur, sydd heb ei gyhoeddi o'r blaen mewn unrhyw ffordd.
- 11 Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i olygu unrhyw waith sydd yn cael ei farnu yn addas i'w gyhoeddi yn y Cyfansoddiadau.

Rheolau Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid i holl gystadleuwyr yr adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg gofrestru ar-lein erbyn noswyl y Beirniadu Cylch neu Sir / Rhanbarth trwy'n gwefan: www.urdd.cymru/eisteddfod Ar ôl cofrestru, rhaid argraffu papur cofrestru unigol ar gyfer pob cystadleuydd a'i osod ar gefn y gwaith.
- 3 Bydd cystadleuaeth Y Fedal (332 a 333) ac Ysgoloriaeth (334) Gelf Dylunio a Thechnoleg yn hepgor y rowndiau Sirol/Rhanbarth ac yn mynd yn syth i'r Genedlaethol.
- 4 Rhaid i holl gynnyrch yr adran fod yn waith a grëwyd gan yr aelod/aelodau.
- 5 Trefnir dyddiad y beirniadu Sirol/Rhanbarthol cyn diwedd Ebrill. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol i gadarnhau'r dyddiad.
- 6 Ni chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy nag unwaith ymhob cystadleuaeth o fewn yr adran.
- 7 **Maint pob eitem**
Gwaith 2D: Dim mwy 760mm x 560mm (i gynnwys mownt 25mm)
Gwaith 3D: Dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm (ac eithrio cerameg/crochenwaith)
Diffiniad 3D: Gwrthrych sy'n weledol o bob cyfeiriad ac sy'n cynnal ei hun
- 8 **Pwysau pob eitem**
Gwaith 3D i bwyso dim mwy na 10kg ac eithrio gwaith y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg a'r Ysgoloriaeth Gelf, Dylunio a Thechnoleg.
- 9 **Mowntio**
Er mwyn diogelu'r gwaith, caniateir mowntio ar bapur neu garden tenau sy'n mesur dim mwy na 25mm. Mae canllawiau penodol ar gyfer yr Adran Ffotograffiaeth. Ni chaniateir defnyddio 'mownt ffenestr' na ffrâm ar gyfer gwaith 2D ac eithrio lle mae ffrâm yn angenrheidiol ar gyfer strwythur y gwaith.
- 10 Trefnir arddangosfa o gynhyrchion buddugol yr adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg ar Faes yr Eisteddfod. Caiff y gwaith buddugol ei fowntio'n broffesiynol ar gyfer yr arddangosfa.
- 11 **Gwaith Grŵp**
Gwaith gan 2 aelod neu fwy.
- 12 **Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Diffinnir 'Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)' yn unol â rheolau'r Awdurdod Addysg Leol.
- 13 Bydd y cyntaf o'r adran Gynradd, y cyntaf a'r ail o'r adran Uwchradd ac Aelwydydd o bob Sir/Rhanbarth yn mynd ymlaen i rownd feirniadu'r Genedlaethol.
- 14 Bydd y cyntaf ac ail o'r Sir/Rhanbarth sydd yn gwesteio yr Eisteddfod yn mynd ymlaen i'r rownd feirniadu'r Genedlaethol.
- 15 Cymerir pob gofal o'r cynhyrchion ond ni fydd yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod anorod a all ddigwydd o safbwynt cludo gwaith i'r beirniadu cenedlaethol ac i/ag o Faes yr Eisteddfod. Os oes gwerth mawr i'r cynhyrchion neu os yw'r cynhyrchion yn fregus, mae croeso i gystadleuwyr/rhieni/athrawon wneud trefniadau eu hunain i gludo'r gwaith.
- 16 Bydd hawl gan yr Urdd i ddefnyddio neu gyhoeddi gwaith neu luniau o waith cynnyrch yr adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg yn y dyfodol heb ofyn caniatâd yr awdur ar gyfer dibenion marchnata a hyrwyddo.

Adeiladwaith

170	Adeiladwaith BI.10 a dan 19 oed	Creu tŷ hunangynhaliol (self-sufficient), h.y. un sydd oddi ar y grid ond eto'n defnyddio deunyddiau adeiladu Cymreig.
171	Adeiladwaith 19-25 oed (ac eithrio disgyblion ysgol)	Creu tŷ hunangynhaliol (self-sufficient), h.y. un sydd oddi ar y grid ond eto'n defnyddio deunyddiau adeiladu Cymreig.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Adeiladwaith

Dylid cyflwyno'r cynllun ar un darn o bapur/cerdyn maint A1. Bydd y gwaith buddugol yn cael ei arddangos yn Arddangos Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod

Adolygu Ffilm

172	Adolygiad Ffilm BI.6 ac iau	Adolygiad o unrhyw ffilm sydd yn addas i'r unigolyn. Hyd at 300 o eiriau.
173	Adolygiad Ffilm BI.7, 8 a 9	Adolygiad o unrhyw ffilm sydd yn addas i'r unigolyn. Hyd at 600 o eiriau.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Adolygu Ffilm

Nod y gystadleuaeth yw rhoi llwyfan i bobl ifanc ddefnyddio eu gallu ysgrifenedig mewn fformat ac arddull newydd, e.e. gellir ysgrifennu adolygiad ar ffurf blog/dyddiadur ayyb.

